# Canllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol ar addysg yn y cartref

## Canllawiau drafft

Dogfen ganllawiau: rhif 203/2019
Dyddiad cyhoeddi: Gorffennaf 2019

# Canllawiau statudol drafft i awdurdodau lleol ar addysg yn y cartref

| | |
|---|---|
| **Cynulleidfa** | Awdurdodau lleol, byrddau iechyd lleol, ysgolion annibynnol a phartïon eraill â diddordeb. |
| **Trosolwg** | Mae'r ddogfen hon yn rhoi canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar drefniadau ar gyfer adnabod plant o oed addysg orfodol sy'n byw yn eu hardaloedd, nad ydynt ar gofrestr unrhyw ysgol a gynhelir, nac mewn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS), nac ar gofrestr unrhyw ysgol annibynnol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas. |
| **Camau i'w cymryd** | Rhaid i awdurdodau lleol ystyried y canllawiau statudol hyn wrth gyflawni eu swyddogaethau o dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys canllawiau statudol a chyngor anstatudol. Cyflwynir y canllawiau statudol mewn testun **bras**. |
| **Rhagor o wybodaeth** | Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:<br>Y Gangen Llesiant Disgyblion<br>Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr<br>Y Gyfarwyddiaeth Addysg<br>Llywodraeth Cymru<br>Parc Cathays, Caerdydd<br>CF10 3NQ<br>Ffôn: 0300 060 4400]<br>e-bost: WellbeingShare@llyw.cymru<br><br>@LlC_Addysg<br>Facebook/AddysgCymru |
| **Copïau ychwanegol** | Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn www://llyw.cymru/cynhwysiant-lles-ymddygiad-a-phresenoldeb |

© Hawlfraint y Goron 2019 WG35754

# Cynnwys


**Cyflwyniad** **2**
**Cyfrifoldebau a hawliau cyfreithiol** **5**
**Adnabod plant nad ydynt yn hysbys i'r awdurdod lleol** **13**
**Addysg effeithlon ac addas** **17**
**Gorchmynion mynychu'r ysgol a gorchmynion goruchwylio addysg** **25**
**Cymorth i blant a addysgir yn y cartref** **30**
**Diogelu ac addysg yn y cartref** **36**
**Atodiad 1: Siart lif gorchmynion mynychu'r ysgol a gorchmynion goruchwylio addysg** **40**
**Atodiad 2: Llythyr cyswllt cychwynnol** **42**
**Atodiad 3: Templed cyn ymweliad i rieni** **43**
**Atodiad 4(a): Templed cyn ymweliad i blant (5–10 oed)** **47**
**Atodiad 4(b): Templed cyn ymweliad i blant (10–16 oed)** **48**
**Atodiad 5: Adroddiad ar ymweliad yr awdurdod lleol** **49**
**Atodiad 6: Llythyr cyswllt adolygiad blynyddol** **52**
**Atodiad 7: Templed ymweliad cartref blynyddol** **53**
**Atodiad 8: Templed hysbysiad gorchymyn mynychu'r ysgol cychwynnol** **56**
**Atodiad 9: Templed hysbysiad gorchymyn mynychu'r ysgol** **58**
**Atodiad 10: Templed gorchymyn mynychu'r ysgol** **59**

# Cyflwyniad

## Ynglŷn â'r canllawiau hyn

1.1 Datblygwyd y canllawiau hyn i gefnogi awdurdodau lleol i arfer eu swyddogaethau o dan adran 463A o Ddeddf Addysg 1996, sy'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i adnabod plant yn eu hardaloedd nad ydynt yn ddysgwyr cofrestredig mewn ysgol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas. **Rhaid** i awdurdodau lleol i roi sylw dyledus[1] i'r canllawiau hyn wrth arfer eu swyddogaethau o dan yr adran honno.

1.2 Mae'r canllawiau hyn hefyd yn nodi rolau a chyfrifoldebau awdurdodau lleol a rhieni[2] o dan y fframwaith deddfwriaethol presennol.

1.3 Mae'r canllawiau hyn wedi'u llywio gan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP). Fe'u datblygwyd i sicrhau bod pob plentyn yng Nghymru, gan gynnwys y rhai a addysgir yn y cartref, yn cael arfer eu hawliau yn unol â CCUHP.

1.4 Mae egwyddorion cyffredinol CCUHP yn llywio'r ffordd y caiff hawliau'r plentyn eu hyrwyddo a'u hamddiffyn drwy'r canllawiau hyn. Dyma'r egwyddorion:

- dim camwahaniaethu (Erthygl 2)
- budd gorau’r plentyn (Erthygl 3)
- yr hawl i fyw, goroesi a datblygu (Erthygl 6)
- parch at farn plant (Erthygl 12).

## Yr hawl i dderbyn addysg

1.5 Mae adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu mai dyletswydd rhieni plant o oedran ysgol yw sicrhau eu bod yn cael addysg amser llawn, addas ac effeithlon, naill ai drwy anfon y plant i'r ysgol neu drwy ddulliau eraill. Mae dewis rhieni yn agwedd allweddol ar addysg yn y cartref. Rhaid taro cydbwysedd rhwng y dewis hwnnw a'r disgwyliad y bydd awdurdodau lleol yn gallu asesu effeithiolrwydd y ddarpariaeth a wneir gan rieni er mwyn sicrhau y bydd yn peri i'r plentyn dderbyn addysg addas. Er mwyn i awdurdod lleol gyflawni'r swyddogaeth honno, nid yw'n afresymol gofyn i rieni egluro'u dull gweithredu. Fodd bynnag, dylid barnu addasrwydd yn ôl dull gweithredu'r rhieni a'r ffordd y caiff ei gyflwyno, nid yn ôl y cwricwlwm cenedlaethol.

1.6 Mae Erthygl 28 o CCUHP yn datgan bod gan bob plentyn yr hawl i dderbyn addysg, ac i gyflawni ei botensial unigol. Mae Erthygl 29 o CCUHP yn datgan y dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau'r plentyn cymaint â phosibl. Dylai annog plant i barchu eu diwylliant eu hunain a diwylliannau eraill.

## Addysg yng Nghymru

1.7 *Addysg yng Nghymru:* Mae *Cenhadaeth ein Cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-21 (*2017) yn nodi'r camau gweithredu sydd eu hangen i wireddu ein huchelgais o

---

[1]Mae ‘rhaid rhoi sylw dyledus’ yn golygu cyfeirio at y canllawiau hyn a'u hystyried yn ofalus. Ar ôl gwneud hynny, byddai angen bod rheswm da dros gyfiawnhau peidio â chydymffurfio â nhw.

[2] Yn y canllawiau hyn, mae i ‘rhiant’ yr un ystyr â'r hyn a nodir yn adran 576 o Ddeddf Addysg 1996 ac felly mae'n cynnwys person sydd â chyfrifoldeb rhieni dros blentyn a pherson sy'n gofalu am y plentyn.

sicrhau bod gan blant yng Nghymru y sgiliau cywir ar gyfer byd sy'n newid. Er bod y Cynllun Gweithredu'n nodi sut y bydd y system ysgolion yng Nghymru yn symud yn ei blaen dros y pedair blynedd nesaf, mae'r egwyddorion o ddarparu'r cymorth angenrheidiol i blant mewn ysgolion - a'r hawl i bob plentyn dderbyn addysg - yr un mor gymwys i'r rheini a gaiff eu haddysgu yn y cartref.

1.8 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hyrwyddo Cymru fwy cyfartal drwy gefnogi system addysg gynhwysol, gyfartal sy'n cefnogi plant i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyfranogi.

## Addysg yn y cartref

1.9 Mae addysg yn y cartref yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio sefyllfa lle mae rhieni yn addysgu eu plant yn y cartref yn lle eu hanfon i'r ysgol.

1.10 Mae'r gymuned addysgu yn y cartref yng Nghymru yn boblogaeth amrywiol gyda rhieni yn dewis addysgu eu plant yn y cartref am amryw resymau. Gall y rhain gynnwys y canlynol:

- ideolegol neu athronyddol
- iechyd (gan gynnwys iechyd emosiynol a llesiant a bwlio)
- diwylliannol
- crefyddol
- darpariaeth addysgol arbennig
- dewis iaith
- hyd y daith i'r ysgol
- aros am le yn eu dewis ysgol
- hyblygrwydd a'r gallu i deilwra’r dull gweithredu.

1.11 Bydd addysg yn y cartref yn adlewyrchu amrywiaeth o ddulliau gweithredu ac mae'n caniatáu ar gyfer dull gweithredu unigol wedi'i deilwra at anghenion a buddiannau penodol pob plentyn. Nid oes un dull sy'n fwy dilys na'i gilydd o reidrwydd ac nid oes un ateb i bawb. Mae llawer o rieni sy'n addysgu yn y cartref yn teimlo eu bod yn gallu diwallu anghenion unigol ac arddull dysgu eu plant yn fwy effeithiol nag y gellid ei wneud mewn ystafell ddosbarth. Gall addysg yn y cartref fod yn brofiad dysgu parhaus lle bynnag y bo'r plentyn.

1.12 Nid yw'n ofynnol i blant a addysgir yn y cartref ddilyn y cwricwlwm cenedlaethol nac unrhyw gwricwlwm penodol arall na bodloni meini prawf o ran nifer yr oriau dysgu. Ceir continwwm o ddulliau addysgu yn y cartref, o addysg ffurfiol, strwythuredig, sy'n dilyn amserlen a gyflwynir yn bennaf yn amgylchedd y cartref, i addysg hunanlywodraethol neu addysg a arweinir gan y plentyn. Hefyd, gall amrywio dros amser ac yn ôl pwnc. Er enghraifft, efallai y bydd plentyn yn symud o ddull mwy hunanlywodraethol pan fydd yn iau i ddull mwy strwythuredig ar gyfer TGAU (os bydd y plentyn yn dewis eu sefyll). Dros y flwyddyn, gall addysg yn y cartref fod yn fwy strwythuredig yn ystod y gaeaf ac yn fwy ymatebol i'r tywydd a chyfleoedd lleol yn ystod yr haf. Gall rhai pynciau fel mathemateg gael eu cyflwyno gan ddefnyddio dull strwythuredig, tra gall eraill, fel hanes, gael eu cyflwyno drwy brosiect a reolir gan y plentyn ei hun.

1.13 Pan ofynnir i swyddogion awdurdodau lleol am gyngor ar yr addysg a ddarperir, mae'n bwysig eu bod yn cydnabod nad yw arferion ac addysg mewn ysgol o

reidrwydd yn berthnasol i addysg yn y cartref. Dylai unrhyw gyngor fod yn seiliedig ar amgylchiadau unigol pob plentyn.

# Cyfrifoldebau a hawliau cyfreithiol

## Hawl rhieni i addysgu eu plant yn y cartref

2.1 Yng Nghymru, mae addysg yn orfodol, ond nid yw'n orfodol anfon plant i'r ysgol. Os bydd plentyn yn cael ei addysgu yn y cartref, mae rhwymedigaeth ar rieni i ddarparu addysg amser llawn ‘effeithlon’ ac ‘addas’ - mae'r rhwymedigaeth hon i'w gweld yn adran 7 o Ddeddf Addysg 1996[3]. Rhaid i rieni sy'n penderfynu addysgu eu plant yn y cartref fod yn barod i ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am hynny, a gall fod goblygiadau ariannol i hyn.

2.2 Mae Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 yn datgan:

> *‘The parent of every child of compulsory school age shall cause him to receive efficient full-time education suitable-*
> *a) to his age, ability and aptitude, and*
> *b) to any special educational needs he may have,*
>
> *either by attendance at school or otherwise.’*

2.3 Mae Erthygl 2 o Brotocol 1 y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn golygu bod dymuniadau'r rhiant yn berthnasol. Yn ôl Erthygl 2 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol:

> *‘No person shall be denied the right to education. In the exercise of any functions which it assumes in relation to education and to teaching, the State shall respect the right of parents to ensure such education and teaching in conformity with their own religious and philosophical convictions’[1].*

2.4 Mae canllaw ar Erthygl 2, sef rhan o'r gyfres o Ganllawiau Cyfraith Achosion a gyhoeddwyd gan Lys Hawliau Dynol Ewrop[4] yn datgan:

> ‘*The right to education guaranteed by the first sentence of Article 2 of Protocol no. 1 by its very nature calls for regulation by the State, regulation which may vary in time and place according to the needs and resources of the community and of individuals. Such regulation must never injure the substance of the right to education nor conflict with other rights enshrined in the Convention. The Convention therefore implies a just balance between the protection of the general interest of the Community and the respect due to fundamental human rights’.[1]*

2.5 Mae'n bosibl y bydd rhieni yn penderfynu addysgu eu plentyn yn y cartref o oed ifanc iawn ac felly mae'n bosibl na fydd y plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol o'r blaen. Gallant hefyd benderfynu addysgu yn y cartref ar unrhyw gam hyd at ddiwedd oedran addysg orfodol.

2.6 Er bod yn rhaid i rieni ddarparu addysg amser llawn, nid oes angen iddynt gadw at oriau ysgol neu amseroedd tymor gan fod yr amser cyswllt bron yn barhaus a gall cyfleoedd dysgu godi ar unrhyw adeg.

---

[3] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/7
[4] www.echr.coe.int/Documents/Guide_Art_2_Protocol_1_ENG.pdf

2.7 Nid oes angen unrhyw gymwysterau ar rieni er mwyn addysgu yn y cartref. Gallant addysgu eu plentyn eu hunain, cyflogi tiwtor, cofrestru eu plentyn ar gyfer sesiynau addysgol neu addysgu mewn grwpiau gyda phlant eraill a gaiff eu haddysgu yn y cartref.

2.8 Lle y darperir addysg amser llawn i bump neu fwy o ddysgwyr o oedran addysg orfodol, neu un dysgwr o oedran addysg orfodol â datganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA) mewn un lleoliad heblaw am ysgol a gynhelir, gallai'r trefniant hwn gael ei gyfrif yn ysgol annibynnol. Fel y cyfryw, rhaid i'r sefydliad gofrestru â Llywodraeth Cymru fel ysgol annibynnol. Bydd unrhyw un sy'n cynnal ysgol annibynnol o'r fath nad yw wedi'i chofrestru yn torri'r gyfraith ac mae'n bosibl y caiff ei ddirwyo a/neu ei garcharu[5].

2.9 Pan fydd rhiant yn hysbysu'r ysgol yn ysgrifenedig o'i fwriad i addysgu ei blentyn yn y cartref, rhaid i enw plentyn gael ei dynnu oddi ar y gofrestr derbyniadau (Rheoliad 8(1)(d) o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010). Rhaid i'r ysgol (gan gynnwys ysgolion yn y sector annibynnol) roi gwybod i'r awdurdod lleol o fewn 10 diwrnod ysgol i'r dyddiad y tynnwyd yr enw/enwau oddi ar y gofrestr (rheoliad 12(3)).

2.10 Os bydd plentyn wedi'i gofrestru mewn ysgol arbennig a bod rhieni yn dymuno ei addysgu yn y cartref, mae'n ofynnol iddynt ysgrifennu at yr ysgol gan ddatgan eu bod yn dymuno addysgu eu plentyn heblaw yn yr ysgol[6]. Bydd yr ysgol yn rhoi gwybod i'r awdurdod lleol am ddymuniadau'r rhieni ond ni chaiff enw'r plentyn ei dynnu oddi ar y gofrestr nes i'r awdurdod lleol gytuno i hynny.

Mae Rheoliad 8(2) o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) 2010 yn nodi:

*'Pan fo plentyn, o dan drefniadau a wnaed gan awdurdod lleol, wedi dod yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol arbennig, ni cheir dileu enw'r plentyn hwnnw o gofrestr dderbyn yr ysgol honno heb fod yr awdurdod hwnnw'n cydsynio, neu, os yw'r awdurdod hwnnw'n gwrthod cydsynio, heb gyfarwyddyd gan Weinidogion Cymru.'*

2.11 Gall rhieni addysgu plentyn sydd â datganiad AAA yn y cartref ond nid oes rhaid iddynt drefnu'r ddarpariaeth fel y'i pennwyd yn y datganiad neu'r cynllun. Fodd bynnag, mae dyletswydd arnynt i wneud 'trefniadau addas' eraill sy'n diwallu anghenion y plentyn.

2.12 Bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn disodli'r fframwaith AAA presennol a daw i rym o fis Medi 2020.

Mae Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a’r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn creu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer yr holl waith o gynllunio a darparu cymorth i blant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol (‘ADY’).

Mae Adran 13 o'r Ddeddf yn rhoi dyletswydd ar awdurdod lleol, os tynnir ei sylw at blentyn sydd ag ADY neu yr ymddengys fel arall fod hynny'n wir, i benderfynu a oes gan y plentyn ADY ai peidio. Nid yw'r ddyletswydd yn benodol i grwpiau penodol o blant a byddai'n cynnwys y rheini a gaiff eu haddysgu yn y cartref. O dan adran 14 o'r Ddeddf, os bydd

[5] www.llyw.cymru/cofrestru-ysgolion-annibynnol-canllawiau
[6] Rheoliad 8(2) o Reoliadau Addysg (Cofrestru Disgyblion) (Cymru) 2010.

awdurdod lleol yn penderfynu bod gan blentyn ADY, rhaid iddo baratoi a chynnal cynllun datblygu unigol (CDU) ar gyfer y plentyn.

Mae adran 14 o'r Ddeddf hefyd yn nodi lle bo awdurdod lleol yn cynnal CDU ar gyfer plentyn neu berson ifanc, fod yn rhaid i'r awdurdod lleol *sicrhau'r* ddarpariaeth ddysgu ychwanegol (ALP) a ddisgrifir yn y cynllun. Nid yw hyn yn golygu bod yn rhaid i'r awdurdod lleol ddarparu'r ddarpariaeth addysgol ychwanegol yn uniongyrchol. Lle bo'r CDU, er enghraifft, yn nodi mai cymorth un i un yw'r ddarpariaeth addysgol arbennig, gallai hyn gael ei darparu gan riant sy'n addysgu'r plentyn yn y cartref. Lle bo angen darpariaeth arbenigol ar y plentyn, byddai angen i'r awdurdod lleol benderfynu a fyddai'n rhesymol i'r cymorth gael ei ddarparu yng nghartref y plentyn neu a fyddai angen, er enghraifft, i'r ddarpariaeth gael ei gwneud mewn ysgol neu leoliad addysgol arbennig. Yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod y ddarpariaeth addysgol ychwanegol yn cael ei chyflawni. Byddai hyn yn cael ei asesu fel rhan o'r adolygiad o'r CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol, y mae'n rhaid ei gynnal bob blwyddyn neu'n amlach os yw hynny'n briodol.

**Bydd yn hanfodol i swyddogion addysg yn y cartref a chydgysylltwyr anghenion dysgu ychwanegol (ALNCOs) yr awdurdod lleol feithrin perthynas waith agos er mwyn bod plant ag ADY a addysgir yn y cartref yn derbyn y cymorth sydd ei angen arnynt.**

## Hawliau plant

2.13 Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu CCUHP[7] fel sail i'w holl waith ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011[8] yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i hawliau plant, fel y nodir yn y CCUHP. Mae Cynllun Hawliau Plant 2014[9] yn nodi'r trefniadau i Weinidogion Cymru gydymffurfio â'r ddyletswydd i roi ystyriaeth briodol i hawliau plant wrth arfer unrhyw rai o'u swyddogaethau.

2.14 Mae Erthygl 12 o CCUHP yn rhoi'r hawl i blant fynegi eu barn ac i bwysau dyledus gael ei roi i'r farn honno, yn unol ag oedran ac aeddfedrwydd y plentyn. Ni yw hyn, fodd bynnag, yn rhoi awdurdod i blant dros rieni. Dylai awdurdodau lleol, drwy eu gwasanaethau cefnogi cyfranogiad plant, ystyried sut y gall lleisiau unigol a thorfol plant a addysgir yn y cartref gael eu clywed.

2.15 Mae Erthygl 28 o CCUHP yn nodi bod gan bob plentyn yr hawl i addysg ac y dylai addysg gynradd fod yn orfodol ac am ddim. Mae Erthygl 29 yn nodi y dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau'r plentyn gymaint â phosibl. Fodd bynnag, budd pennaf y plentyn yw un o egwyddorion sylfaenol CCUHP, ac mae Erthygl 3 o CCUHP yn ei gwneud yn ofynnol i bob oedolyn ystyried sut y bydd eu gweithredoedd yn effeithio ar blant, a gwneud yr hyn fydd orau i'r plentyn.

2.16 Bwriad gwefan Hawliau Plant Cymru (www.hawliauplant.cymru/) yw helpu ymarferwyr, llunwyr polisïau a rhanddeiliaid i ddatblygu eu dealltwriaeth o hawliau plant a sut mae gweld pethau o safbwynt hawliau plant yn eu gwaith.

---

[7] www.unicef.org.uk/what-we-do/un-convention-child-rights/
[8] www.legislation.gov.uk/cy/mwa/2011/2/contents
[9] Cynllun Hawliau Plant 2014

## Cyfrifoldebau awdurdodau lleol

### Adran 436A o Ddeddf Addysg 1996

2.17 O dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, rhaid i awdurdodau lleol wneud trefniadau i adnabod plant yn eu hardaloedd sydd o oedran addysg orfodol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas[10]. Mae Adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 yn nodi:

(1) A local authority must make arrangements to enable them to establish (**so far as it is possible to do so**) the identities of children in their area who are of compulsory school age but (a) are not registered pupils at a school, and (b) are not receiving suitable education otherwise than at a school.

'Suitable education', in relation to a child, means efficient full-time education suitable to his age, ability and aptitude and to any special educational needs he may have.

2.18 Dylai awdurdodau lleol nodi y dylid dehongli'r cafeat yn a.436A 'cyn belled ag y bo'n bosibl' i olygu y dylai'r awdurdod lleol wneud popeth sy'n rhesymol, ymarferol ac yn briodol er mwyn adnabod plant. Gweler adran 5 i gael rhagor o wybodaeth.

2.19 Mae cynsail cyfreithiol wedi pennu y gall awdurdodau lleol wneud ymholiadau anffurfiol i rieni er mwyn cael manylion y ddarpariaeth addysgol a wneir ar gyfer eu plentyn. Mae Phillips v Brown yn datgan[11]:

'*If parents give no information or adopt the course….of merely stating that they are discharging their duty without giving any details of how they are doing so, the LEA will have to consider and decide whether it appears to it that the parents are in breach of section 36* (adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 erbyn hyn.)'

**(Phillips v Brown, Llys Adrannol, heb ei adrodd, 20 Mehefin 1980)**

### Polisi addysg yn y cartref a'r broses graffu

2.20 Mae craffu yn chwarae rôl bwysig wrth hyrwyddo gwelliant parhaus yn y ffordd y mae awdurdod lleol yn cyflenwi gwasanaethau i'w cymunedau. Dylai awdurdodau lleol adrodd i bwyllgorau craffu perthnasol ac aelodau etholedig mewn perthynas â materion yn ymwneud ag addysg yn y cartref, a hynny o leiaf unwaith y flwyddyn. Gallai'r adroddiadau gynnwys pynciau fel y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

- nifer y plant a addysgir yn y cartref ac unrhyw dueddiadau
- materion i'w hystyried
- arfer da
- asesu risgiau
- blaengynllunio
- ffactorau sy'n cyfrannu at addysg yn y cartref (AAA, canfyddiad o fwlio, anghenion nas diwallir, osgoi erlyniad am ddiffyg presenoldeb, ac ati).

---

[10] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/436A
[11] Phillips v Brown, Llys Adrannol [20 Mehefin 1980, heb ei adrodd]

2.21 Mae fframwaith arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol Estyn[12] yn nodi y caiff arolygwyr werthuso goruchwyliaeth awdurdodau lleol o blant a addysgir yn y cartref gan eu rhieni, gan gynnwys plant a phobl ifanc sydd â chynlluniau statudol ar gyfer eu haddysg. Gall arolygwyr ystyried a yw'r awdurdod lleol yn darparu canllawiau defnyddiol i rieni sy'n addysgu eu plant yn y cartref, ac yn eu cyfeirio at gymorth.

2.22 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod gan bob awdurdod lleol uwch swyddog enwebedig sy'n gyfrifol am bolisi a gweithdrefnau addysg yn y cartref, a fydd yn datblygu ac yn cynnal cysylltiadau â gwaith arall ar faterion megis plant sy'n colli addysg, lleoliadau heb eu cofrestru, plant agored i niwed a lles.

2.23 Yn ogystal, disgwylir y bydd swyddogion addysg yn y cartref yn cydweithio'n agos ag adrannau eraill yn yr awdurdod lleol, fel timau'r gwasanaeth lles addysg ac addysg heblaw yn yr ysgol, i adnabod plant a addysgir yn y cartref a'u cefnogi. Dylai timau'r Gwasanaeth Lles Addysg ac Addysg yn y Cartref gydweithio i atal dadgofrestru mewn achosion lle nad yw'n deillio o ddewis cwbl ddeallus, a wneir o wirfodd. Bydd hyn yn cynnwys gweithredu fel cyfryngwr rhwng yr ysgol a theulu'r dysgwr er mwyn helpu i ddatrys unrhyw wahaniaeth barn sy'n effeithio ar addysg y dysgwr. Lle bo plentyn wedi cael ei ddadgofrestru, dylai'r awdurdod lleol gyfarfod â'r teulu cyn gynted â phosibl er mwyn cael gwybod y rhesymau dros addysgu yn y cartref. Lle y bo'n briodol, dylai'r awdurdod lleol gynorthwyo'r teulu i wneud ceisiadau am leoedd ysgol neu ddarpariaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

2.24 Fel mater o arfer da, cynghorir awdurdodau lleol i adolygu eu gweithdrefnau a'u harferion i gyd yn rheolaidd, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag addysg yn y cartref. Dylai sefydliadau addysg yn y cartref a rhieni a phlant a addysgir yn y cartref gael eu cynnwys yn y broses adolygu. Bydd adolygiadau effeithiol, a mynd i'r afael ag unrhyw gwynion mewn modd sensitif, yn helpu i feithrin a sicrhau partneriaeth fwy effeithiol.

**Defnyddio data i lywio polisi**

2.25 Yn ôl datganiad ystadegol 2017/18 o ddisgyblion Addysg Heblaw yn yr Ysgol, roedd 1,964 o ddysgwyr yn cael eu haddysgu yn y cartref[13]. Mae'r data a gesglir ond yn cyfrif cyfanswm y plant y mae'n hysbys eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref, ynghyd â dadansoddiad o rywedd ac oedran y rheini y mae'n hysbys eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref. Mae'r wybodaeth yn gyfyngedig ac nid yw'n addas ar gyfer dadansoddiad cadarn gan awdurdodau lleol na Llywodraeth Cymru.

2.26 Mae'r data ystadegol dros y tair blynedd diwethaf yn dangos cynnydd o oddeutu 250 yn nifer y plant a addysgir yn y cartref. Mae nifer sylweddol o'r plant hyn yn gadael addysg brif ffrwd er mwyn cael eu haddysgu yn y cartref.

2.27 Dros y ddwy flynedd ddiwethaf (2017/18 a 2018/19) mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC), Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) a Data Cymru wedi cynnal ymarfer casglu data er mwyn datblygu set ddata gadarn a chyson ar addysg yn y cartref dros amser ym mhob awdurdod lleol. Am y tro cyntaf, mae gan awdurdodau lleol ddata llinell sylfaen ar addysg yn y cartref, sy'n sefydlu lleiafswm o

[12] www.estyn.llyw.cymru/document/arweiniad-ar-gyfer-arolygu-gwasanaethau-addysg-awdurdodau-lleol-ar-gyfer-plant-phobl-ifanc?_ga=2.151681785.1335170977.1563791806-462150992.1561023132
[13] www.gweddill.gov.wales/statistics-and-research/pupils-educated-other-than-at-school/?lang=cy

wybodaeth a gofnodir ar lefel awdurdodau lleol. Mae'r ymarfer yn darparu adroddiad i awdurdodau lleol sy'n eu galluogi i nodi patrymau a thueddiadau addysg yn y cartref yn eu hardaloedd, a chymharu demograffig a nodweddion addysgol eu carfan addysg yn y cartref eu hunain â'r cohort ehangach ledled Cymru[14]. Disgwylir i awdurdodau lleol ddefnyddio'r data hyn i lywio'r gwaith o ddatblygu eu polisïau a'u harferion o ran addysg yn y cartref, er mwyn deall yn well y rhesymau pam y mae rhai teuluoedd yn dewis addysgu yn y cartref, ac i roi'r cymorth a'r cyngor y bydd eu hangen ar rai teuluoedd ar waith. Dylai'r awdurdod lleol hefyd ystyried tueddiadau mewn addysg yn y cartref mewn cyd-destun strategol ehangach, er enghraifft, wrth nodi diffygion mewn darpariaeth ysgolion lleol a lleoliadau darpariaeth amgen, neu fethiannau gan ysgolion i reoli presenoldeb ac ymddygiad yn briodol.

**Ysgolion yn rhoi pwysau ar rieni i dynnu eu plant oddi ar gofrestr yr ysgol**

2.28 Ceir tystiolaeth anecdotaidd o achosion lle mae ysgolion wedi rhoi pwysau ar rieni i dynnu eu plant oddi ar gofrestr yr ysgol er mwyn eu haddysgu yn y cartref. Mewn rhai achosion, defnyddiwyd y bygythiad o wahardd plentyn i annog rhieni i dynnu eu plentyn o'r ysgol.

2.29 **Ni ddylai rhieni ar unrhyw gyfrif gael eu hannog i dynnu eu plentyn oddi ar gofrestr ysgol er mwyn osgoi gwaharddiad neu erlyniad am fethu â sicrhau bod eu plentyn wedi mynychu'r ysgol neu er mwyn gwella canlyniadau perfformiad yr ysgol.**

2.30 Nid yw'n dderbyniol i ysgolion ymwneud ag arfer o'r fath. Dylai penderfyniadau a wneir gan ysgolion gefnogi hawl plant i gael addysg (Erthygl 28 a 29 CCUHP) a dylent gael eu gwneud er budd pennaf y dysgwr (Erthygl 3). Yn ôl y gyfraith, dim ond pan fydd yn angenrheidiol ac yn briodol gwneud hynny y gall ysgolion wahardd dysgwyr. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru[15] yn ei gwneud yn glir y dylai penderfyniad i wahardd dysgwr ond gael ei wneud mewn ymateb i achosion difrifol o dorri polisi ymddygiad yr ysgol, ac os byddai caniatáu i'r dysgwr aros yn yr ysgol yn gwneud niwed difrifol i addysg neu les y dysgwr neu ddysgwyr eraill yn yr ysgol. Dim ond pan fetho popeth arall y dylid gwahardd disgybl yn barhaol.

2.31 Mae cyfrifoldeb ar awdurdod lleol i eirioli ar ran pob plentyn. Caiff awdurdodau lleol eu hannog yn gryf i ddefnyddio'r data sydd ar gael i nodi tueddiadau o ran dadgofrestru at ddibenion gwella canlyniadau perfformiad ysgol. Lle y gallant nodi arwyddion cynnar o'r bwriad i ddadgofrestru, dylai awdurdodau lleol gysylltu â'r rhieni i drafod eu rhesymau. Mae'n bwysig sicrhau bod penderfyniad rhieni i addysgu yn y cartref yn un cwbl ddeallus, ac wedi'i wneud o'u gwirfodd, a bod barn y plant yn cael ei pharchu er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn y broses o wneud y penderfyniad hwn.

2.32 Lle ceir tystiolaeth bod ysgolion yn rhoi pwysau ar ysgolion i dynnu eu plentyn oddi ar gofrestr yr ysgol, dylai awdurdodau lleol herio ysgolion ac ystyried defnyddio eu pwerau ymyrryd statudol.

---

[14] Mae'r holl ddata yn gyfanredol ac yn destun rheolaeth lem o ran datgelu cyn adrodd.
[15] www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-03/gwahardd-o-ysgolion-ac-unedau-cyfeirio-disgyblion.pdf

### Gorchmynion mynychu'r ysgol (gweler adran 5)

2.33 Os yw'n ymddangos i awdurdod lleol nad yw plentyn yn derbyn addysg addas mae'n rhaid iddo gyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i'r rhiant yn gofyn i'r rhiant ei fodloni o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad (heb fod yn llai na 15 diwrnod)[16], fod y plentyn yn derbyn addysg o'r fath. Os nad yw'r awdurdod lleol yn fodlon, neu os na ddarperir y wybodaeth honno, **rhaid** iddo roi gorchymyn mynychu'r ysgol i'r rhiant mewn perthynas â'r plentyn hwn, sy'n nodi pa ysgol y dylai'r plentyn ei mynychu[17].

### Gorchmynion goruchwylio addysg (gweler adran 5)

2.34 O dan adran 447 o Ddeddf Addysg 1996[18], os bydd rhiant yn methu â chydymffurfio â gorchymyn mynychu'r ysgol, **rhaid** i'r awdurdod lleol ystyried a fyddai'n briodol gwneud cais am orchymyn goruchwylio addysg mewn perthynas â'r plentyn (yn hytrach neu yn ogystal â chychwyn achos). Gallai methiant i gydymffurfio â gorchymyn mynychu'r ysgol arwain at euogfarn troseddol neu orfodi gorchymyn goruchwylio addysg, neu'r ddau.

### Dyletswyddau diogelu awdurdodau lleol (gweler adran 8)

2.35 Mae Deddf Plant 2004[19] yn gosod dyletswydd benodol i gydgysylltu er mwyn gwella llesiant plant (a.25) ac yn awgrymu dyletswydd i rannu gwybodaeth ar gyfer cynllunio strategol, ac i roi trefniadau ar waith i hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth am blant unigol er mwyn gwella eu llesiant.

2.36 Mae adran 25 ac adran 28 o Ddeddf Plant 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol a'i asiantaethau perthnasol gydweithio i wella llesiant plant, drwy eu diogelu rhag cael eu niweidio a'u hesgeuluso; hyrwyddo eu haddysg, a gwella eu llesiant corfforol, meddyliol, emosiynol, cymdeithasol ac economaidd. Mae plant sy'n colli addysg yn wynebu perygl o allgáu cymdeithasol ac maent yn annhebygol o allu cyflawni yn y dyfodol heb gael darpariaeth addysgol gyson.

2.37 Dylai awdurdodau lleol ymdrin ag achosion lle ceir amheuaeth ynghylch addasrwydd addysg yn y cartref gan ddefnyddio eu pwerau o dan Ddeddf Addysg 1996. Dylent hefyd fod yn barod, os ymddengys bod diffyg addysg addas yn debygol o amharu ar ddatblygiad plentyn, i arfer eu pwerau diogelu a'u ddyletswyddau i ddiogelu llesiant y plentyn. Yr amcan pennaf yn yr achosion hyn yw sicrhau y caiff datblygiad y plentyn ei ddiogelu rhag niwed sylweddol. Gweler adran 7 am ganllawiau pellach.

2.38 Mae Rhan 2 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru ) 2014[20] yn cynnwys darpariaethau sy'n ymwneud â swyddogaethau cyffredinol awdurdod lleol, gan gynnwys asesu anghenion poblogaeth am ofal a chymorth a gwasanaethau eraill, fel y rheini sy'n hyrwyddo llesiant, a hyrwyddo mentrau cymdeithasol, cwmnïau cydweithredol, gwasanaethau a arweinir gan y defnyddiwr a'r trydydd sector.

2.39 **Rhaid** i awdurdod lleol hyrwyddo llesiant i bobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr sydd angen cymorth wrth gyflawni unrhyw un o'i swyddogaethau; mae hyn

---

[16] Adran 437(1) o Ddeddf Addysg 1996.
[17] Adran 437(3) o Ddeddf Addysg 1996.
[18] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/447
[19] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2004/31/contents
[20] www.legislation.gov.uk/anaw/2014/4/pdfs/anaw_20140004_cy.pdf

yn cynnwys y bobl hynny nad oes ganddynt anghenion sy'n bodloni meini prawf cymhwysedd ond sydd ag anghenion gofal a chymorth y gellir eu diwallu mewn ffyrdd eraill, er enghraifft, drwy ddarparu gwybodaeth, cyngor a chymorth a gwasanaethau llesiant ataliol neu drwy gynnal asesiadau gofal a chymorth.

2.40 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau i hyrwyddo cydgysylltiad rhwng yr awdurdod lleol a'i ‘bartneriaid perthnasol’[21] gyda'r nod o wella llesiant plant yn ei ardal, yn enwedig y rheini sydd ag anghenion gofal a chymorth a'r nod o wella ansawdd y gofal a'r cymorth a roddir i blant a diogelu plant sy'n profi, neu sydd mewn perygl o brofi camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed.

[21] Caiff 'partneriaid perthnasol' eu diffinio gan adran 162(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

## Adnabod plant nad ydynt yn hysbys i'r awdurdod lleol

3.1 Mae'n debygol iawn y bydd rhai plant a addysgir yn y cartref mewn ardal awdurdod lleol na fydd yr awdurdod lleol yn gwybod amdanynt. Bydd nifer o resymau am hyn, er enghraifft, efallai nad yw'r plentyn erioed wedi cael ei gofrestru mewn ysgol, neu fod teulu wedi symud i'r awdurdod lleol o ran arall o'r wlad.

3.2 O dan adran 436A o Ddeddf Addysg 1996, dylai awdurdodau lleol wneud trefniadau i'w alluogi i adnabod, cyn belled ag y bo'n bosibl gwneud hynny, y plant hynny yn eu hardaloedd sydd o oedran addysg orfodol ond nad ydynt yn derbyn addysg addas. Dylai awdurdodau lleol fod yn rhagweithiol wrth chwilio am ffyrdd o adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt, gan wneud popeth sy'n rhesymol ac yn briodol.

3.3 Mae'n hanfodol bod gan awdurdodau lleol fesurau cadarn ar waith i nodi'n gyflym pan fydd plentyn yn colli addysg, neu fod potensial bod hynny'n wir, a chymryd camau dilynol gan ddefnyddio systemau olrhain ac ymholi effeithiol i ddod o hyd iddynt. Mae canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar blant sy'n colli addysg yn gymwys[22]. Mae plant sy'n colli addysg yn wynebu perygl o allgáu cymdeithasol ac maent yn annhebygol o allu cyflawni yn y dyfodol.

## Rheoliadau Cronfa Ddata (Cymru) 2020 a Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Cymru) 2020 Deddf Plant 2004

3.4 Mae adran 29 o Ddeddf Plant 2004 yn galluogi rheoliadau i gael eu gwneud a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal a phoblogi cronfa ddata o blant o oedran addysg orfodol yn eu hardal er mwyn eu helpu i adnabod y rheini nad ydynt ar gofrestr ysgol, cofrestr addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) neu gofrestr ysgol annibynnol.

3.5 Mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud rheoliadau a fydd yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol ddatgelu unrhyw wybodaeth anfeddygol i awdurdodau lleol i'w helpu i adnabod plant yn eu hardal. Rhaid i fwrdd iechyd lleol sy'n datgelu gwybodaeth i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i sicrhau bod y wybodaeth yn gywir.

3.6 Yn ogystal, bydd yn ofynnol i ysgolion annibynnol ddatgelu gwybodaeth am ddysgwyr sydd wedi'u cofrestru yn eu sefydliadau i'r awdurdod lleol.

3.7 Dylai awdurdodau lleol ddefnyddio dulliau eraill o adnabod plant nad ydynt wedi'u pennu yn y rheoliadau er mwyn sicrhau bod y gronfa ddata yn gywir ac mor gyflawn â phosibl. Mae'r adrannau canlynol yn amlinellu rhai o'r dulliau eraill hyn, ond dylid ystyried dulliau ar wahân i'r rhain hefyd. Bydd angen i awdurdodau lleol ystyried a oes dulliau eraill ar gael iddynt y gallant eu defnyddio i adnabod plant nad ydynt yn hysbys iddynt. Gweler canllawiau ar atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg am ragor o gyngor[23].

[22] www.learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170323-statutory-guidance-to-help-prevent-children-and-young-people-from-missing-education-cy.pdf

[23] www.learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170323-statutory-guidance-to-help-prevent-children-and-young-people-from-missing-education-cy.pdf

## Rhannu gwybodaeth ag asiantaethau partner eraill

3.8 Gall swyddogion awdurdodau lleol rannu gwybodaeth yn unol â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data a Deddf Diogelu Data (Deddf 2018). Dylai awdurdodau lleol hefyd ystyried rhannu gwybodaeth pryd bynnag y mae'n gyfreithlon gwneud hynny.

3.9 Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol er mwyn sicrhau bod pob plentyn o oedran addysg orfodol yn cael ei adnabod. Felly, dylai awdurdodau lleol geisio datblygu protocolau rhannu gwybodaeth[24] sy'n egluro'r amgylchiadau lle y gellir rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau sy'n cefnogi plant, a lle dylid gwneud hynny. Fodd bynnag, nid yw diffyg cytundeb neu gydsyniad rhannu gwybodaeth benodol yn golygu na all asiantaethau rannu gwybodaeth lle bo llesiant plentyn mewn perygl. Mae dal yn briodol rhannu gwybodaeth bersonol heb dorri Deddf Diogelu Data 2018 ar yr amod bod gwneud hynny'n angenrheidiol er mwyn cyflawni swyddogaethau statudol.

3.10 Mae Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (CRhGBC) yn fframwaith sy'n helpu **pob** darparwr gwasanaeth i rannu data personol mewn ffordd gyfreithlon, ddiogel ac effeithiol. Mae'r cytundeb yn set gyffredin o egwyddorion a safonau, sy'n cefnogi'r broses o rannu gwybodaeth bersonol er mwyn darparu gwasanaethau. Mae derbyn ac arwyddo'r Cytundeb yn gam gwirfoddol, ond anogir pob darparwr gwasanaethau cyhoeddus i ymuno. Mae pob un o'r 22 o Awdurdodau Lleol wedi arwyddo'r CRhGBC[25]. Mae CRhGBC yn darparu templedi ar gyfer cytundebau rhannu Data fel Protocolau Rhannu Gwybodaeth a Chytundebau Datgelu Data i awdurdodau lleol eu defnyddio.

3.11 Er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg addas, mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol eraill ledled Cymru a Lloegr. Yn ogystal â rhannu gwybodaeth yng Nghymru, fel y bydd y Rheoliadau yn ei fynnu (gweler adran 3.8), disgwylir i awdurdodau lleol Cymru ddatblygu protocolau rhannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol yn Lloegr er mwyn sicrhau nad yw plant sy'n symud ar draws ffiniau yn colli addysg.

3.12 Mae Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn nodi'r hawl i gael bywyd preifat a bywyd teulu. Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol hefyd yn nodi'r hawl i beidio â chael addysg wedi'i gwrthod (Erthygl 2, Protocol 1). Rhaid i'r broses o rannu gwybodaeth fod yn angenrheidiol, yn gymesur a rhaid iddi gael ei chynnal yn unol â'r gyfraith[26].

## Cydweithio ag asiantaethau partner

3.13 Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol yn cydweithio'n barhaus ag asiantaethau partner a chael trefniadau ar waith i adnabod plant nad ydynt yn hysbys i'r awdurdod lleol. Mae'n bosibl y bydd plant yn hysbys i asiantaethau eraill, ac na fyddant yn hysbys i'r awdurdod lleol lle maent yn byw.

[24] www.waspi.org/hafan
[25] www.waspi.org/awdurdodau-lleol
[26] www.echr.coe.int/Documents/Guide_Art_8_ENG.pdf

3.14 Mae'r heddlu yn creu ffurflen ar ôl unrhyw ddigwyddiad lle bydd eu sylw yn cael ei ddwyn i blentyn neu berson ifanc a lle bo rheswm dros gredu ei fod yn wynebu perygl. Yn y rhan fwyaf o'r achosion hyn, bydd yr heddlu wedi cael eu galw i ddigwyddiad domestig y bydd plentyn neu berson ifanc yn gysylltiedig ag ef, fel tyst, neu fel rhywun a oedd yn rhan o'r digwyddiad. Os na fydd unrhyw ysgol wedi'i nodi ar y ffurflen, dylai'r gwasanaethau cymdeithasol sicrhau bod y mater hwn yn cael ei gyfeirio at y gwasanaeth lles addysg, i'w wirio yn erbyn y gronfa ddata er mwyn ceisio adnabod ysgol neu ddarpariaeth addysgol. Os na ellir dod o hyd i ysgol, bydd angen i'r awdurdod lleol gynnal ymchwiliad pellach er mwyn cadarnhau a yw'r plentyn yn colli addysg.

## Cyrchoedd triwantiaid

3.15 Dylai'r rheini sy'n cymryd rhan mewn gwaith cyrchu triwantiaid fod yn ymwybodol y gall fod rhesymau dilys pam y mae plant o oedran ysgol allan o'r ysgol. Mae cyrchoedd triwantiaid yn ffordd effeithiol iawn o adnabod plant sydd y tu allan i'r system addysg, gan gynnwys y rheini sy'n mynd ar goll o addysg a phlant sy'n colli addysg. Gall pobl broffesiynol sy'n cymryd rhan mewn cyrchoedd triwantiaid ddod i gysylltiad â phlant a addysgir yn y cartref ac felly nad ydynt yn yr ysgol. Ni ddylid cymryd unrhyw gamau pellach lle bydd plant yn nodi eu bod yn cael eu haddysgu yn y cartref oni bai bod rheswm dros amau nad yw hynny'n wir. Os bydd gweithwyr proffesiynol yn dod i gysylltiad â phlentyn a gaiff ei addysgu yn y cartref, bydd angen iddynt adnabod yr awdurdod lleol perthnasol. Mae'n bosibl y bydd angen rhoi gwybod i rieni sy'n addysgu yn y cartref y gall fod angen i weithwyr proffesiynol sy'n cymryd rhan mewn cyrchoedd triwantiaid ddilysu unrhyw wybodaeth a roddir iddynt o dan yr amgylchiadau hyn.

3.16 Gallai cyrchoedd adnabod plant nad ydynt ar gofrestr ysgol ac a all fod o deuluoedd sy'n gyndyn i ymgysylltu â gwasanaethau statudol, neu'n gwrthod gwneud hynny. Gall cyrchoedd triwantiaid, felly, o gael eu trefnu'n briodol, fod yn ffordd ddefnyddiol o wneud cysylltiad â'r grŵp hwn.

## Pwyntiau trosglwyddo

3.17 Dylai awdurdodau lleol groesgyfeirio data derbyniadau ysgolion â'r gofrestr genedigaethau byw er mwyn adnabod plant o oed derbyn nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ceisio cyrraedd cymaint â phosibl o ddarpar-ddysgwyr o oed derbyn cychwynnol, a bod ganddynt gytundebau rhannu gwybodaeth i hwyluso'r broses o groesgyfeirio plant sy'n dechrau mewn darpariaeth statudol yn erbyn cronfeydd data partneriaid (megis blynyddoedd cynnar, timau gofal plant ac iechyd). Lle na fanteisiwyd ar le mewn ysgol, dylid rhoi gwybod i'r gwasanaeth lles addysg er mwyn gwneud ymholiadau pellach. Mae'n bosibl y bydd angen help ar rai teuluoedd gyda'r broses dderbyn; efallai y bydd rhai teuluoedd wedi methu â chymryd camau dilynol mewn cysylltiad â chais, neu heb gael lle yn eu dewis ysgol a heb dderbyn cynnig am le mewn ysgol arall. Mae'n bwysig bod gan awdurdodau lleol weithdrefnau a strategaethau ar waith ar gyfer y camau dilynol i'w cymryd mewn sefyllfaoedd o'r fath, gan leihau'r cyfle i blant fynd ar goll o addysg. Lle y nodwyd bod teulu yn addysgu yn y cartref, gellir cynnig cymorth a chyngor yn unol â dymuniadau teulu, lle y bo'n briodol.

## Plant yn colli addysg

3.18 Diben dyletswydd adran 436A yw gwneud yn siŵr bod plant sy'n mynd ar goll o addysg yn cael eu hadnabod yn gyflym ac y rhoddir systemau monitro effeithiol ar waith i sicrhau bod y plentyn yn cael gafael ar y ddarpariaeth fwyaf priodol cyn gynted â phosibl[27].

3.19 Mae'n bosibl na fydd yr ymholiadau hyn bob amser yn arwain at ddod o hyd i'r plentyn, ond byddant yn llywio'r camau sydd angen eu cymryd, er enghraifft, cysylltu â'r heddlu, gofal cymdeithasol plant, ac mewn achosion lle bydd pryderon am ddiogelwch plentyn sydd wedi teithio dramor, y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad.

### Ysgol i Ysgol

3.20 Gwefan trosglwyddo data'n ddiogel yw ysgol i ysgol (s2s) sydd ar gael i ysgolion ac awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr ei defnyddio. Fe'i dyluniwyd i'w gwneud yn bosibl i ffeiliau fformat trosglwyddo cyffredin (CTF) gael eu hanfon gan unrhyw ysgol a gynhelir, ac ati. Mae dyletswydd statudol ar bob ysgol a gynhelir yng Nghymru i ddefnyddio'r system drosglwyddo gyffredin (CTS) ar gyfer Cymru a Lloegr i drosglwyddo gwybodaeth benodol yn electronig, drwy wefan ysgol i ysgol - 's2s'[28].

3.21 Pan fydd dysgwyr yn symud o un ysgol i un arall, s2s yw'r dull a ddefnyddir i gadw trac arnynt, gan sicrhau nad ydynt yn cael eu colli o'r system, a bod unrhyw wybodaeth arwyddocaol, er enghraifft anghenion addysgol arbennig (AAA) neu fanylion fel ''Plentyn sy'n Derbyn Gofal' ar gael ar unwaith i'r ysgol newydd. Rhaid creu ffeil CTF ar gyfer pob dysgwr sy'n gadael ysgol, hyd yn oed os nad yw'n mynd i ysgol a gynhelir yng Nghymru neu Loegr neu os nad yw'r lleoliad nesaf yn hysbys.

3.22 Os bydd y plentyn neu'r person ifanc wedi gadael yr ysgol heb fod y lleoliad nesaf yn hysbys, a bod yr ysgol a'r Gwasanaeth Lles Addysg wedi dilyn gweithdrefnau a bod pob 'ymdrech resymol' i ddod o hyd iddo wedi bod yn aflwyddiannus, yna, ar ôl pedair wythnos, dylai'r ysgol, mewn ymgynghoriad â'r awdurdod lleol dynnu enw'r plentyn neu berson ifanc oddi ar ei chofrestr a chreu ffeil CTF 'disgybl coll' gan nodi XXXXXXX fel y lleoliad. Dylai'r CTF hon gael ei lanlwytho i wefan ddiogel Ysgol i Ysgol lle caiff ei dal yn y 'Gronfa Ddata Disgyblion Coll' a fydd yn ei gwneud yn bosibl i awdurdodau lleol olrhain darpariaeth yn y dyfodol ac felly helpu i sicrhau nad yw plant yn aros 'ar goll'.

3.23 Dylai awdurdodau lleol archwilio'r 'Gronfa Ddata Disgyblion Coll' yn rheolaidd i chwilio am blant sy'n colli addysg o bosibl a/neu a all fod yn cael eu haddysgu yn y cartref.

[27] Adran 436A o Ddeddf Addysg 1999 fel y'i diwygiwyd gan adran 4 o ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006.
[28] www.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/common-transfer-system-cts-and-s2s-user-notes-for-schools.pdf

## Addysg effeithlon ac addas

4.1 Mae'r dull a ddefnyddir gan rieni sy'n addysgu yn y cartref i sicrhau bod eu plentyn yn derbyn addysg addas yn debygol o gael ei lywio gan eu hathroniaeth neu eu barn eu hunain, ac mewn llawer o achosion, gall absenoldeb asesiadau ffurfiol fod yn nodwedd o'r ddarpariaeth addysgol. Gall cynnydd, dros y tymor hir, amlygu'i hun drwy amrywiaeth o ffurfiau.

4.2 Mae'r diffiniad o addysg addas ac effeithlon wedi'i nodi yn adran 7 o Ddeddf Addysg 1996, sy'n nodi "The parent of every child of compulsory school age shall cause him to receive efficient full-time education suitable: (a) to his age, ability and aptitude, and (b) to any special educational needs he may have, either by regular attendance at school or otherwise'.

4.3 Yn ôl cyfraith achosion, rhaid i gynnwys y ddarpariaeth honno fod yn addas er mwyn iddi wneud y canlynol:

*'equips a child for life within the community of which he is a member….as long as it does not foreclose the child's options in later years to adopt some other form of life if he wishes to do so.'*
**(R v yr Ysgrifennydd Gwladol dros Addysg, ex parte Ymddiriedolaeth Ysgol Talmud Torah Machzikei Hadass, The Times, 12 Ebrill 1985)**

4.4 Yn Harrison & Harrison v Stevenson, diffiniodd y barnwr ddeilliannau addysg addas fel y canlynol:

- Paratoi'r plant ar gyfer bywyd mewn cymdeithas fodern waraidd; a
- Eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial.

*' …in our judgement 'education' demands at least an element of supervision; merely to allow a child to follow its own devices in the hope that it will acquire knowledge by imitation, experiment or experience in its own way and in its own good time is neither systematic nor instructive … such a course would not be education but, at best, child-minding. We should not, in the ordinary case, regard a system of education as suitable for any child capable of learning such skills, if it failed to instill in the child the ability to read, write or cope with arithmetical problems, leaving it to time, chance, and the inclination of the child to determine whether – if ever – the child eventually achieved even elementary proficiency in those skills'.*

**Harrison a Harrison v Stevenson [1982] (QB (DC) 729/81).**

4.5 Mae addysg effeithlon yn un sy'n cyflawni'r hyn y mae'n bwriadu ei gyflawni. Mae'n bwysig nad yw'r cysyniad hwn yn cael ei ddrysu ag addasrwydd. Gallai addysg gwbl anaddas gael ei chyflwyno mewn modd effeithlon, ond fe fyddai'n dal i fod yn anaddas.

4.6 Ar hyn o bryd, nid oes diffiniad cyfreithiol o ystyr addysg 'amser llawn'. Fel arfer, bydd plant yn mynychu'r ysgol rhwng 22 a 25 awr yr wythnos am 38 wythnos y flwyddyn, ond nid yw'r mesuriad hwn o 'amser cyswllt' bob amser yn berthnasol i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, lle mae'n bosibl y bydd cyswllt un i un neu gyswllt grŵp parhaus, bron, a lle mae'n bosibl y cynhelir yr addysg y tu allan i 'oriau ysgol' arferol. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd addysg y mae'n amlwg nad yw'n llenwi cyfran

sylweddol o fywyd y plentyn yn bodloni gofyniad adran 7.

4.7 Ni waeth pa ddull a ddefnyddir i ddarparu addysg addas, mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn ystyried a yw'r dull yn gweddu i anghenion plentyn unigol a bod y plentyn yn gwneud cynnydd rhesymol yn unol â'i oedran, ei ddoniau ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a all fod ganddo.

4.8 Gall dysgu ddigwydd mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys yn y cartref. Gall hefyd gael ei roi ar waith drwy brofiadau eraill fel ymweliadau â lleoedd o ddiddordeb a chyfleusterau fel llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac orielau. Un o nodweddion addysg yn y cartref yw'r gallu i fod yn hyblyg ac addasu i ddigwyddiadau ac amgylchiadau yn ddyddiol.

4.9 Mae i'w ddisgwyl, o dan rai amgylchiadau, y bydd llai o gynllunio dysgu ffurfiol, neu ddim o gwbl, mewn gwrthgyferbyniad i gynllunio strwythuredig mewn ysgolion. Bydd gweithgareddau dysgu yn wahanol iawn i'r rheini mewn ysgolion. Mae'n bosibl na fydd gwaith ysgrifenedig yn elfen mor amlwg o'r dysgu ag y mae mewn ysgolion, gan ei bod yn bosibl bod dysgu un i un yn lleihau'r angen i ddefnyddio gwaith ysgrifenedig fel dull o fesur dealltwriaeth. Fodd bynnag, ni ddylid diystyru gwerth sgiliau ysgrifennu.

4.10 Er y byddai'n afrealistig barnu pa mor addas yw darpariaeth addysg yn y cartref o fewn ychydig ddiwrnodau o'r adeg y dechreuodd, dylai teuluoedd fod yn anelu at gynnig addysg foddhaol yn y cartref o'r cychwyn a dylent fod wedi gwneud paratoadau i'r perwyl hwnnw. Mae cyfraith achosion yn nodi'r canlynol:

> *‘Essentially the duty of an education authority in carrying out that function is … simply to give the applicant a fair and reasonable opportunity to satisfy it as to the matters set out in the Regulation. Prima facie this opportunity will appropriately be given (as was done in the present case) if the Authority, having first allowed the parents a sufficient time to set in motion their arrangements for home education.’*
>
> **(R v Cyngor Sir Gwent (1985))**

4.11 Ni ddylai asesu addasrwydd addysg ymwneud â mesur cyrhaeddiad y plentyn neu roi profion iddo. Mae'n bosibl na fydd arferion a dulliau addysgu yn yr ysgol yn berthnasol i rai teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, ac y gall darpariaeth addysg yn y cartref fod yn anghonfensiynol. Mae angen i awdurdodau lleol fod yn sicr y bydd yr addysg a ddarperir gan y rhieni yn peri i'r plentyn dderbyn addysg 'addas'. Dylai’r dystiolaeth a ddarperir gan y rhieni ddangos bod yr addysg sy'n cael ei darparu mewn gwirionedd yn addas, yn hytrach nag yn ddatganiad o fwriad.

4.12 Nes i'r awdurdod lleol fod yn sicr bod y plentyn a addysgir yn y cartref yn derbyn addysg addas, mae'n bosibl y bydd y plentyn o fewn cwmpas dyletswydd adran 436A a bydd canllawiau statudol Llywodraeth Cymru ar blant sy'n colli addysg yn gymwys[29].

---

[29] www.learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/170323-statutory-guidance-to-help-prevent-children-and-young-people-from-missing-education-cy.pdf

4.13 Dylai awdurdodau lleol gofio **nad yw'n** ofynnol i addysgwyr yn y cartref wneud y canlynol:

- addysgu'r cwricwlwm cenedlaethol
- cael amserlen
- cael safle ac ynddo gyfarpar i safon benodol
- marcio gwaith a wneir gan eu plentyn
- pennu'r oriau y bydd yr addysg yn cael ei chynnal
- meddu ar unrhyw gymwysterau penodol
- cwmpasu'r un maes llafur ag unrhyw ysgol
- gwneud cynlluniau manwl ymlaen llaw
- cadw at oriau, diwrnodau neu dymhorau ysgol
- cael gwersi ffurfiol
- atgynhyrchu cymdeithasoli ymhlith grŵp cymheiriaid fel a geir mewn ysgol
- cydweddu â safonau ysgolion sy'n benodol i oedran.

4.14 Fodd bynnag, os yw'r addysg yn y cartref yn cynnwys agweddau ar y cwricwlwm cenedlaethol neu safonau ysgolion annibynnol, gallai hyn fod yn arwydd bod yr addysg yn addas.

## Nodweddion awgrymedig addysg addas ac effeithlon

4.15 Byddai addysg addas yn cynnwys darpariaeth mewn sgiliau rhifedd, llythrennedd ac iaith, sy'n briodol i oedran y plentyn, ei allu a'i ddoniau ac unrhyw AAA a allai fod ganddo. Nid yw addysg addas yn ymwneud â dysgu academaidd yn unig, dylai hefyd gynnwys cymdeithasoli. Mae hyn yn hanfodol er mwyn paratoi'r plentyn i gyfranogi a gweithredu mewn cymdeithas.

4.16 Dylai sgiliau llythrennedd a rhifedd gyfateb i allu cyffredinol y plentyn a galluogi'r plentyn i wneud y canlynol:

- Caffael sgiliau gwrando a siarad
- Caffael sgiliau darllen sy'n cynnwys geirfa a deall
- Caffael sgiliau ysgrifennu sy'n cynnwys gramadeg, atalnodi a sillafu.

4.17 Dylai sgiliau rhifedd gyfateb i allu cyffredinol y plentyn ac adlewyrchu cam datblygu'r plentyn.

4.18 Wrth ystyried yr addysg yn y cartref a ddarperir yn y cartref, dylai awdurdodau lleol ddisgwyl yn rhesymol iddi gynnwys y nodweddion canlynol:

- cyfraniad cyson y rhieni neu ofalwyr sylweddol eraill
- ymateb i anghenion a budd pennaf y plentyn, gan ystyried meysydd dysgu sydd o ddiddordeb i'r plentyn, ac a ddylai gyfoethogi potensial y plentyn
- sicrhau bod y plentyn yn cael cyfleoedd i ymgysylltu ag ystod eang resymol o brofiadau dysgu
- darparu cyfleoedd i ddatblygu sgiliau personol a chymdeithasol i'w helpu i'w paratoi ar gyfer bywyd diweddarach a dod yn ddinasyddion ymgysylltiol
- sicrhau bod y plentyn yn cael cyfleoedd i ddatblygu sgiliau sylfaenol
- athroniaeth neu ethos lle mae'r rhieni'n dangos ymrwymiad, brwdfrydedd a chydnabyddiaeth o anghenion, agweddau a dyheadau'r plentyn
- cyfleoedd i'r plentyn gael ei ysgogi gan ei brofiadau dysgu
- cymryd rhan mewn sbectrwm eang o gyfleoedd a gweithgareddau dysgu sy'n briodol i oedran y plentyn a'i gam datblygu

- mynediad at adnoddau a deunyddiau priodol
- cyfle i ddatblygu llythrennedd digidol;
- cyfle ar gyfer lefel briodol o weithgarwch corfforol a chwarae
- cyfle i ryngweithio â phlant ac oedolion eraill.

## Asesu addasrwydd addysg

4.19 Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn deall cymhelliant rhieni a'r ffordd y mae eu hamgylchiadau a'u profiadau wedi dylanwadu ar eu penderfyniad i addysgu yn y cartref. Bydd gan rieni sy'n addysgu yn y cartref resymau gwahanol dros beidio ag anfon eu plant i'r ysgol. Gall y rhesymau hyn newid dros amser, ac mewn rhai achosion, bydd y rhesymau hyn yn gymhleth ac mae'n bosibl y byddant wedi cael effaith ddwys ar y teulu.

4.20 Felly, wrth wneud ymholiadau am yr addysg a ddarperir, dylai awdurdodau lleol fod yn sensitif i amgylchiadau'r teulu, ceisio deall pam y dewisodd y teulu addysgu yn y cartref ac edrych ar y ddarpariaeth fesul achos. Mae addysg yn y cartref yn unigryw i bob plentyn a gall rhieni gynnig profiad sydd wedi'i deilwra'n unigol ar gyfer eu plentyn, sy'n ystyriol o oedran, gallu a doniau eu plentyn ac unrhyw AAA a all fod ganddo.

4.21 Er mwyn i awdurdod lleol fodloni ei hun bod yr addysg a ddarperir gan y rhieni yn addas, **dylai'r**[30] awdurdod lleol weld y plentyn a siarad ag ef. Heb weld y plentyn, bydd yn anodd i awdurdod lleol asesu addasrwydd yr addysg yn rhesymol a gwybod a yw unrhyw dystiolaeth arall a ddarperir yn ymwneud â'r plentyn hwnnw. Bydd cyfathrebu â'r plentyn yn rhoi cyfle i'r awdurdod lleol feithrin dealltwriaeth well o'r ffordd y mae'r plentyn yn dysgu a pha feysydd dysgu y mae ganddo ddiddordeb ynddynt.

4.22 Gall fod achlysuron lle nad yw er budd gorau'r plentyn i'r awdurdod lleol gyfarfod ag ef, neu, o dan amgylchiadau eithriadol, gall yr awdurdod lleol ddod i'r casgliad bod y plentyn yn derbyn addysg addas, heb ei weld. Yn yr achosion hyn, dylai'r Cyfarwyddwr Addysg gytuno, gan gofnodi'r dull hwn o weithredu. Dylid pennu dyddiad priodol i adolygu'r penderfyniad hwn, gan ystyried amgylchiadau unigol y plentyn.

4.23 Mae gan bob plentyn yr hawl i gymryd rhan mewn penderfyniadau sy'n effeithio ar ei fywyd a dylid rhoi pwysau dyledus i'w farn yn unol â'i gapasiti, fel y nodir yn Erthygl 12 o CCUHP[31]. Bydd hyn yn helpu'r awdurdod lleol i ystyried barn y plentyn mewn ffordd ystyrlon wrth ffurfio barn ar addasrwydd yr addysg.

4.24 Os bydd gwybodaeth a barn a ddarperir gan y plentyn yn bwrw amheuaeth ar addasrwydd yr addysg a ddarperir, yna dylai'r farn honno fod yn rhan o'r wybodaeth sy'n arwain at gasgliad yr awdurdod lleol nad yw'r addysg yn addas. Os yw'n glir nad yw plentyn yn dymuno cael ei addysgu yn y cartref er bod yr addysg a ddarperir yn

[30] Rhaid i awdurdodau lleol roi sylw dyledus i'r canllawiau statudol hyn a'u hystyried yn ofalus. Ar ôl gwneud hynny, byddai angen bod rheswm da dros gyfiawnhau peidio â chydymffurfio â nhw. Er enghraifft, ni fyddai'r ffaith bod y teulu yn ei osgoi neu'n gwrthod yn gyfystyr â rheswm da.
[31] ‘Rhaid i Wladwriaethau sicrhau i'r plentyn sy'n gallu ffurfio ei farn ei hun hawl i leisio'r farn honno'n ddirwystr ym mhob mater sy'n effeithio arno, a bod pwys priodol yn cael ei roi ar farn y plentyn yn ôl ei oedran a'i aeddfedrwydd’.

foddhaol, dylai'r awdurdod lleol drafod y rhesymau dros hyn gyda'r rhieni a'u hannog i ystyried a yw addysg yn y cartref er budd pennaf y plentyn pan maen amlwg nad dyna ddymuniad y plentyn. Dylai'r awdurdod lleol helpu'r teulu i ddod i farn gyffredin ar yr hyn sydd orau, er enghraifft, drwy gyfeirio neu gynnig gwasanaethau cyfryngu teuluol i iddynt.

4.25 Mae gweld y plentyn i drafod ei ddarpariaeth addysg yn cydweddu â nifer o erthyglau yn CCUHP fel hawl y plentyn i addysg ac i gyflawni ei botensial, gan gynnwys ei hawl i fynegi ei farn ac i gael gwybodaeth briodol er mwyn gwneud dewisiadau deallus, i gael cymorth a darpariaeth, i chwarae a gweithgareddau hamdden ac i gael ei gadw'n ddiogel.

4.26 Nid oes rhaid i gyfarfod o'r fath gael ei gynnal yn y cartref; gellir ei gynnal mewn lleoliad y cytunwyd arno gan y naill barti a'r llall. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfle i awdurdodau lleol drafod yr addysg a ddarperir ac unrhyw gymorth y gall fod ei angen ar y teulu. Byddant hefyd yn rhoi cyfle i'r awdurdod lleol feithrin perthynas gadarnhaol â theuluoedd a chaniatáu i blant a addysgir yn y cartref rannu eu barn ar yr addysg maent yn ei derbyn.

4.27 Dylid defnyddio dulliau eraill yn ogystal â'r cyfarfod, er mwyn sicrhau'r awdurdod lleol bod yr addysg yn addas. Gallai awdurdod lleol – pe byddai o'r farn ei bod yn briodol gwneud hynny – anfon holiadur cyn cyfarfod cyn cwrdd â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref (gweler Atodiad 3) i rieni a phlant eu llenwi gyda'i gilydd, lle bo hynny'n briodol (gweler Atodiad 4(a)−(b)). Bydd hyn yn rhan o ddull mwy cyfannol o asesu addasrwydd addysg. Gall yr awdurdod lleol ddefnyddio'r ymateb i'r holiadur i lywio ei drafodaeth gyda'r rhieni sy'n addysgu yn y cartref a'r plant.

4.28 Fel rhan o'r cyfarfodydd hyn, dylai'r awdurdod lleol ofyn am gael gweld enghreifftiau o ddysgu, er mwyn pennu addasrwydd yr addysg a ddarperir. Gellir gofyn am waith sydd wedi'i gwblhau a gwaith sydd ar y gweill o safonau amrywiol, a'i drafod gyda'r rhieni a'r plentyn er mwyn dysgu am brofiad dysgu'r plentyn. Mae hyn oll yn adlewyrchu'r dysgu a'r cynnydd a wneir gan y plentyn.

4.29 Byddai'n anodd pennu bod addysg yn ddigon addas o un neu ddwy enghraifft o waith. Byddai angen i awdurdodau lleol gadw mewn cof y bydd gan rieni wybodaeth fanwl am y cynnydd y mae eu plentyn yn ei wneud, a **dylid** ceisio eu barn ar y cynnydd a wneir gan eu plentyn, a rhoi pwysau digonol ar y farn honno wrth asesu addasrwydd yr addysg. **Dylid** hefyd geisio barn y plentyn am ei addysg, a dylai awdurdodau lleol roi pwysau priodol i'r farn honno wrth iddynt bwyso a mesur.

4.30 Mae'n bosibl y bydd awdurdodau lleol am drafod y canlynol gyda rhieni:

- y prif feysydd dysgu y mae'r rhieni yn darparu ar eu cyfer
- pa egwyddor neu athroniaeth sy'n ategu'r dysgu
- pa ystyriaeth a roddwyd i anghenion dysgu'r plentyn, a sut y caiff yr anghenion hyn eu diwallu dros amser
- y dull a ddefnyddir, megis dysgu ymreolaethol neu strwythuredig neu led-strwythuredig.

## Plant ag anghenion addysgol arbennig (AAA)

4.31 Mae plant ag AAA[32] yn ei chael hi'n llawer anos i ddysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed â nhw, ac mae'n bosibl y byddant yn wynebu rhwystrau i ddysgu. Mae'n bosibl felly, y byddant yn cymryd mwy o amser i brosesu gwybodaeth a datblygu sgiliau newydd, ac mae'n bosibl y byddant yn ei chael hi'n anodd rhyngweithio â phobl eraill. Gall yr anghenion dysgu ychwanegol amrywio'n sylweddol o ran eu math a'u lefel. Er enghraifft, efallai y bydd gan rai plant anawsterau dysgu penodol sydd ond yn effeithio ar un neu ddau faes dysgu fel darllen, ysgrifennu neu ddeall yr hyn a ddywedir wrthynt. Ond efallai y bydd gan eraill anawsterau dysgu dwys a lluosog sy'n effeithio ar eu lefel o annibyniaeth bersonol. Ar gyfer y dysgwyr hyn, mae'r cynnydd a wneir yn debygol o gael ei wneud mewn camau bach iawn ac mewn ffyrdd cynnil.

4.32 Mae'n bosibl y bydd angen ffurfiau ychwanegol o gymorth ar ddysgwyr er mwyn gwneud cynnydd yn eu haddysg neu gyfleu eu barn, er enghraifft, atgyfeirio neu gyfeirio at wasanaethau eraill. Mae disgwyl i awdurdodau lleol ystyried hyn ymlaen llaw mewn modd rhagweithiol wrth gynllunio i gyfarfod â theulu er mwyn trafod addysg plentyn. Bydd hyn yn ei gwneud yn bosibl i unrhyw addasiadau angenrheidiol neu gymorth gael eu trefnu er mwyn caniatáu i'r plentyn gymryd rhan yn y trafodaethau am ei addysg. I gael rhagor o wybodaeth neu gyngor, cyfeiriwch at y Cod AAA[33].

## Beth yw cais rhesymol am dystiolaeth o addysg addas?

4.33 Mae cynsail cyfreithiol wedi pennu y gall awdurdodau lleol wneud ymholiadau anffurfiol i rieni er mwyn cael manylion y ddarpariaeth addysgol a wneir ar gyfer eu plentyn. Mae cyfraith achosion wedi nodi:

*‘Of course such a request is not the same as notice under section 37(1) of the Education Act 1944 (not section 437(1) of the 1996 Education Act ) and the parents will be under no duty to comply. However, it would be sensible for them to do so. If parents give no information or adopt the course…….of merely stating that they are discharging their duty without giving any details of how they are doing so, the LEA will have to consider and decide whether it appears to it that the parents are in breach of section 36 (now section 7 of the Education Act 1996.)’*

**(Phillips v Brown, Llys Adrannol (20 Mehefin 1980, heb ei adrodd)**

## Pa mor aml y cynhelir cyfarfodydd rhwng teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ac awdurdodau lleol

4.34 Dylai amlder y cyfarfodydd â theuluoedd a addysgir yn y cartref fod yn gymesur ac yn seiliedig ar amgylchiadau unigol pob plentyn. **Dylid cynnal cyfarfod o leiaf unwaith y flwyddyn** er mwyn sicrhau y cynhelir addasrwydd yr addysg ac yr ystyrir bod y

---

[32] Daw Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 i rym ym mis Medi 2020. Bydd y canllawiau yn y ddogfen hon yn cael eu diweddaru yn unol â'r newidiadau hyn, ac ar yr adeg honno, bydd angen i awdurdodau lleol ystyried y goblygiadau i ddysgwyr a addysgir yn y cartref.
[33] www.llyw.cymru/anghenion-addysgol-arbennig-cod-ymarfer?_ga=2.113981511.1335170977.1563791806-462150992.1561023132

plentyn yn gwneud cynnydd addas.

4.35 Os oes gan yr awdurdod lleol bryderon am addasrwydd addysg, bydd angen iddo ystyried gweld y teulu yn amlach er mwyn bodloni'i hun bod y plentyn yn derbyn addysg addas. Mae'n bosibl y bydd angen i'r awdurdod lleol gydgysylltu â phartneriaid perthnasol eraill yr awdurdod lleol, gan ddibynnu ar amgylchiadau'r plentyn, wrth benderfynu pa mor aml y dylid cyfarfod â'r teulu.

4.36 Mae'n bosibl y bydd angen help neu gymorth ychwanegol ar rai rhieni er mwyn darparu addysg addas. Disgwylir i'r awdurdod lleol wneud pob ymdrech resymol i roi help a/neu gymorth i'r teulu. Gall hyn gynnwys rhoi gwybodaeth i rieni am wasanaethau ataliol a, lle y bo'n briodol, sicrhau cydsyniad rhieni am atgyfeiriad i'r gwasanaethau ataliol hynny sydd ar gael yn lleol. Cynnig yw hwn, ac nid oes unrhyw rwymedigaeth ar y rhieni i dderbyn y cymorth.

4.37 Dylai'r awdurdod lleol fod yn rhesymol ac yn hyblyg wrth drefnu'r cyfarfodydd hyn. Fodd bynnag, os nad yw'r awdurdod lleol yn fodlon ar y canlynol: (a) bod rhesymau didwyll dros wrthod y cyfarfod; neu (b) os yw'r teulu wedi canslo cyfarfodydd droeon neu heb ddod i gyfarfod; neu (c) mae teulu wedi gwrthod caniatáu i'w plentyn gymryd rhan mewn cyfarfodydd heb reswm da, yna bydd angen iddo ystyried a oes modd iddo ddod i'r casgliad bod plentyn yn derbyn addysg addas (gweler adran 4.21).

4.38 Lle na all awdurdod lleol ddod i'r casgliad bod plentyn yn derbyn addysg addas, **rhaid** iddo weithredu yn unol â'r gyfraith[34] fel yr amlinellir yn adran 5.

**Adroddiad ysgrifenedig yn dilyn cyfarfod â'r teulu sy'n addysgu yn y cartref**

4.39 Dylai'r awdurdod lleol baratoi adroddiad heb fod yn hwyrach na 10 diwrnod[35] ar ôl cyfarfod â'r teulu. Dylai'r adroddiad amlinellu a yw'r ddarpariaeth yn addas neu'n anaddas, a'r rhesymau dros yr asesiad o'r ddarpariaeth honno. Mae'n bosibl y bydd yn ddefnyddiol i'r awdurdod lleol ystyried y canlynol wrth benderfynu a yw'r plentyn yn derbyn addysg addas:

- agweddau llwyddiannus ar y ddarpariaeth
- agweddau llai llwyddiannus ar y ddarpariaeth
- i ba raddau y mae'r ddarpariaeth yn diwallu anghenion y plentyn
- barn y plentyn (lle y'i darperir) ar ei addysg
- i ba raddau y mae'r ddarpariaeth yn debygol o ddiwallu'r gofyniad am addysg 'addas
- a oes modd gwneud penderfyniad o ran a yw'r ddarpariaeth a ddarperir yn addysg 'addas
- a oes digon o dystiolaeth i gefnogi eich barn.

4.40 Gallai nodweddion eraill yr adroddiad gynnwys y canlynol:

- unrhyw gamau gweithredu dilynol ar gyfer yr awdurdod lleol a/neu'r rhiant
- a yw'r angen am help ychwanegol a/neu gymorth wedi'i nodi, yn ogystal â'r hyn y bydd yr awdurdod lleol yn ei wneud er mwyn helpu i hwyluso hynny, a'r amserlenni ar gyfer cyflawni'r help a/neu'r cymorth

---

[34] Mae adran 437(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol weithredu os yw'n ymddangos nad yw rhieni'n darparu addysg addas.

[35] Ar gyfer amgylchiadau mwy cymhleth, mae'n bosibl y bydd angen mwy o amser ar yr awdurdod lleol, er enghraifft, er mwyn sicrhau nod gweithwyr proffesiynol eraill yn cael eu cynnwys, fel seicolegwyr addysg/therapyddion lleferydd ac iaith.

- nodi pryd y dylai'r cyfarfod nesaf gael ei gynnal
- unrhyw bryderon neu faterion a godwyd gan y teulu;
- unrhyw geisiadau am help neu wybodaeth a wnaed gan y teulu
- a oes angen atgyfeirio i asiantaethau eraill neu wasanaethau cymorth
- cyfleoedd ar gyfer cymorth ychwanegol.

4.41 Dylid rhoi cyfle i rieni drafod yr adroddiad gyda'r awdurdod lleol ac i gywiro unrhyw wallau ffeithiol yn ddi-oed.

# Gorchmynion mynychu'r ysgol a gorchmynion goruchwylio addysg[36]

## Gorchmynion mynychu'r ysgol

5.1 Bydd Gorchmynion Mynychu'r Ysgol yn gymwys pan fydd rhiant plentyn o oedran addysg orfodol yn methu â bodloni'r awdurdod lleol bod y plentyn yn derbyn addysg addas a lle bo'r awdurdod lleol o'r farn y dylai'r plentyn fynychu'r ysgol.

5.2 Lle nad yw'n glir bod plentyn yn derbyn addysg addas (gweler adran 4) (gan gynnwys sefyllfaoedd lle nad oes unrhyw wybodaeth o gwbl ar gael), dylai'r awdurdod lleol geisio eglurder ar y mater drwy gyswllt anffurfiol ac ymholiadau. Mae dyletswydd awdurdod o dan adran 436A[37] o Deddf Addysg 1996 (a'r ddyletswydd o dan adran 437[38]) yn sail ddigon ar gyfer ymholiadau anffurfiol. At hyn, mae adran 436A yn creu dyletswydd i fabwysiadu system ar gyfer gwneud ymholiadau o'r fath.

5.3 Y dull mwyaf amlwg o weithredu yw i awdurdodau lleol gyfarfod â'r rhieni a'r plentyn a addysgir yn y cartref i drafod yr addysg a ddarperir yn y cartref i'r plentyn. Yn niffyg gwybodaeth sy'n awgrymu bod plentyn yn cael addysg addas, ac os yw'r rhieni'n gwrthod ateb am reswm nad yw'n gysylltiedig â'r addysg, yr unig gasgliad y mae'n rhesymol i'r awdurdod lleol ddod iddo yw ei bod yn ymddangos nad yw'r addysg yn y cartref yn addas.

5.4 Mae adran 437(1) o Ddeddf Addysg 1996 yn darparu bod yn rhaid i awdurdodau lleol weithredu os yw'n ymddangos nad yw rhieni'n darparu addysg addas:

> *'**If it appears** to a local authority that a child of compulsory school age in their area is not receiving suitable education, either by regular attendance at school or otherwise, **they shall serve a notice** in writing on the parent requiring him to satisfy them within the period specified in the notice that the child is receiving such education.'*

5.5 Yn dilyn cyfnod heb fod yn llai na 15 diwrnod o'r dyddiad y cyhoeddwyd yr hysbysiad, os bydd rhiant yn methu â sicrhau awdurdod lleol bod addysg addas yn cael ei darparu, **rhaid** i'r awdurdod lleol yn unol â'r cyfarwyddyd yn adran 437 (3), gyhoeddi gorchymyn mynychu'r ysgol (gweler Atodiad 10).

5.6 Mae Adran 437(3) yn cyfeirio at gyhoeddi gorchmynion mynychu'r ysgol:

> *If (a) parent on whom a notice has been served under subsection (1) fails to satisfy the local authority, within the period specified in the notice, that the child is receiving suitable education, **and***
> *(b) in the opinion of the authority it is expedient that the child should attend school, the authority shall serve on the parent an order (referred to in this Act as a 'school attendance order'), in such form as may be prescribed, requiring him to cause the child to become a registered pupil at a school named in the order.'*

[36] www.beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/all-wales-attendance-framework.pdf
[37] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/436A
[38] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/437

5.7 Lle bo ysgol a gynhelir wedi'i henwi mewn gorchymyn mynychu'r ysgol, rhaid i'r awdurdod lleol roi gwybod i gorff llywodraethu a phennaeth yr ysgol honno.

5.8 Lle bo ysgol a gynhelir wedi'i henwi mewn gorchymyn mynychu'r ysgol, rhaid i'r corff llywodraethu a'r awdurdod lleol dderbyn y plentyn i'r ysgol[39].

5.9 Byddai'n rhaid bod amgylchiadau eithriadol er mwyn i awdurdodau gyfiawnhau peidio â chreu gorchymyn mynychu'r ysgol, er enghraifft:

- os yw'r plentyn o fewn ychydig wythnosau i beidio â bod o oedran addysg orfodol mwyach
- os oes gan y plentyn anghenion corfforol, meddygol neu addysgol sy'n arwain at hyglwyfedd eithriadol mewn lleoliad ysgol – dylai'r awdurdod lleol ystyried dewisiadau amgen fel cael tiwtor a ddarperir gan yr awdurdod ei hun
- os yw'r rhiant wrthi'n gweithio gyda'r awdurdod i wella'r addysg yn y cartref a'i bod yn edrych yn debygol y bydd yn sicrhau addasrwydd o fewn cyfnod byr.

## Anghenion addysgol arbennig

5.10 Lle bo gan blentyn ddatganiad AAA, yn unol ag adran 441 o Ddeddf Addysg 1996[40]:

- Os bydd y datganiad yn enwi ysgol benodol, caiff yr ysgol honno ei henwi ar y gorchymyn.
- Os nad yw'r datganiad yn enwi ysgol benodol, bydd yr awdurdod lleol yn diwygio'r datganiad fel ei fod yn enwi ysgol benodol, ac yna caiff yr ysgol honno ei henwi yn y gorchymyn.

## Ar ôl i orchymyn mynychu'r ysgol gael ei gyflwyno

5.11 Ar ôl i orchymyn mynychu'r ysgol gael ei gyhoeddi, gall rhieni gyflwyno tystiolaeth i'r awdurdod lleol i ddangos eu bod bellach wedi gwneud trefniadau boddhaol ar gyfer addysg y plentyn a gwneud cais i ddirymu'r gorchymyn. Wrth ystyried y dystiolaeth, dylai'r awdurdod lleol weld y plentyn (gweler adran 4.21). Ar ôl ystyried y dystiolaeth, os bydd yr awdurdod lleol o'r farn bod y rhieni wedi gwneud trefniadau addysgol boddhaol, rhaid dirymu'r gorchymyn.

5.12 Ni waeth a yw'r rhieni wedi gwneud cais am ddirymiad ai peidio, os nad yw'r rhieni'n sicrhau bod y plentyn yn mynychu'r ysgol, **dylai'r** awdurdod ystyried erlyn, a **dylai** fwrw ymlaen â hyn oni bai bod rheswm da iawn dros beidio â gwneud hynny. O dan adran 447(1) o Ddeddf 1996, rhaid i awdurdod lleol sy'n ystyried erlyn rhiant am fethu â chydymffurfio â gorchymyn mynychu'r ysgol ystyried gwneud cais am orchymyn goruchwylio addysg, a hynny naill ai fel cam gweithredu amgen yn lle erlyn, neu fel cam gweithredu yn ogystal ag erlyn (gweler isod).

5.13 Os bydd yr awdurdod lleol yn erlyn y rhieni am beidio â chydymffurfio â'r gorchymyn, mater i'r llys fydd penderfynu a yw'r addysg a ddarperir yn addas, yn amser llawn ac yn effeithlon ai peidio. Os bydd yn fodlon bod y rhiant yn bodloni'r gofyniad i ddarparu addysg addas, gall y llys gyfarwyddo i'r gorchymyn beidio â bod mewn grym.

---

[39] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/437
[40] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/441

5.14 Bydd gorchymyn mynychu'r ysgol yn parhau mewn grym tra bod y plentyn o oedran addysg orfodol oni bai:

- y caiff ei ddirymu gan yr awdurdod lleol
- mewn proses erlyn, bydd y llys yn rhoi cyfarwyddyd i'r gorchymyn mynychu'r ysgol beidio â bod mewn grym
- gwnaed cais llwyddiannus i'r llys i gyfarwyddo ei fod yn peidio â bod yn gymwys mwyach.

5.15 Lle nad yw rhieni wedi cydymffurfio â gorchymyn mynychu'r ysgol, dylai awdurdodau lleol gadw mewn cof eu cyfrifoldebau cyhoeddus fel erlynwr. Os bydd awdurdodau lleol yn gyndyn o erlyn am resymau yn ymwneud â chostau, mae'n bosibl y byddant am geisio cyngor cyfreithiol am y posibilrwydd o sicrhau gorchymyn costau yn erbyn ymgeisydd llwyddiannus ar y sail y byddai'r erlyniad wedi bod yn ddiangen oni bai am ymddygiad afresymol y diffynnydd.

5.16 Mae'n bwysig nodi mai dim ond unwaith y cyflawnir y drosedd o beidio â chydymffurfio â gorchymyn mynychu'r ysgol benodol. Felly, os nad yw rhieni yn cydymffurfio â'r gorchymyn ar ôl erlyniad, rhaid cynnal y broses o gyhoeddi hysbysiad eto. Mae hyn yn golygu y gall rhiant sy'n fodlon ac yn gallu cael ei ddirwyo dro ar ôl tro barhau i ddarparu addysg anfoddhaol yn y cartref yn ddi-ben-draw. Goblygiad hyn yw y bydd angen i'r awdurdod lleol ystyried defnyddio pwerau heblaw deddf addysg. Gweler o adran 15.17 ymlaen ar orchmynion goruchwylio addysg ac adran 7 ar ddiogelu.

## Gorchmynion goruchwylio addysg

5.17 Mae gan awdurdodau lleol rôl oruchwylio ffurfiol mewn cysylltiad ag addysg plant sy'n destun gorchymyn goruchwylio addysg o dan adran 36 o Ddeddf Plant 1989. Gwneud cais am orchymyn goruchwylio addysg fydd yr ymateb cymesur yn aml pan na fydd rhieni'n cydymffurfio â gorchymyn mynychu'r ysgol.

5.18 O dan adran 447 o Ddeddf Addysg 1996 mae'n **rhaid** i awdurdod lleol ystyried gwneud cais am orchymyn goruchwylio addysg cyn penderfynu erlyn rhieni am bresenoldeb gwael yn yr ysgol neu am fethu â chydymffurfio â gorchymyn mynychu'r ysgol. Gall awdurdod lleol wneud cais am orchymyn goruchwylio addysg yn lle erlyn y rhieni, neu yn ogystal â gwneud hynny. Os bydd yr awdurdod lleol yn dewis peidio â gwneud cais am orchymyn goruchwylio addysg, dylai gofnodi / darparu tystiolaeth o'i ystyriaethau a'r rhesymau dros ystyried nad oedd yn briodol.

5.19 Mae gorchymyn goruchwylio addysg yn rhoi'r cyfrifoldeb dros gynghori, cefnogi a rhoi 'cyfarwyddyd' i'r plentyn a gaiff ei oruchwylio a'i rieni i'r awdurdod lleol, er mwyn sicrhau bod y plentyn yn cael ei addysgu mewn ffordd briodol.

5.20 Os crëir gorchymyn goruchwylio addysg, mae dyletswydd ar yr awdurdod lleol i roi ‘ystyriaeth ddyledus’ i ‘ddymuniadau a theimladau’ y plentyn a'r rhieni; ac mae'n bosibl y bydd hyn yn arwain at wella'r addysg yn y cartref[41]. Fodd bynnag, mae gorchymyn goruchwylio addysg yn rhoi dyletswydd ar rieni i ganiatáu cyswllt rhesymol â'r plentyn[42]. Lle bo gorchymyn goruchwylio addysg mewn grym, mae nifer

[41] Rhan III, Atodlen 13, para 12(1) o Ddeddf Plant 1989.
[42] Rhan III, Atodlen 13, para 16(2) o Ddeddf Plant 1989.

o oblygiadau i'r rhieni a'r plentyn. Caiff dyletswyddau rhieni o dan adrannau 7[43] a 444[44] neu 444ZA[45] o Ddeddf Addysg 1996 eu disodli gan eu dyletswydd i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau sydd mewn grym o dan y gorchymyn goruchwylio addysg.

5.21 Mae methiant parhaus i gydymffurfio â chyfarwyddiadau a roddir o dan orchymyn goruchwylio addysg yn drosedd oni all rhiant ddangos ei fod wedi cymryd pob cam rhesymol i gydymffurfio, neu fod y cyfarwyddyd yn afresymol. Mae dirwy am y drosedd o hyd at £1,000 fesul rhiant am bob plentyn nad yw'n derbyn addysg addas.

**Cymhwysiad**

5.22 Gellir defnyddio gorchymyn goruchwylio addysg i sicrhau bod plentyn yn derbyn addysg amser llawn sy'n addas ar gyfer ei oedran, gallu, doniau ac unrhyw AAA sydd ganddo, a bod y rhiant a'r plentyn yn cael digon o gymorth ac arweiniad.

5.23 Fel arfer, bydd gorchymyn goruchwylio addysg yn peidio â bod mewn grym:

- ar ôl blwyddyn
- pan fydd plentyn dros oedran addysg orfodol, a/neu
- pan gaiff ei ddirymu gan y llys yn dilyn cais gan y plentyn, y rhieni neu'r awdurdod lleol.

5.24 Gall awdurdod lleol wneud cais am i orchymyn goruchwylio addysg gael ei ymestyn am hyd at dair blynedd, os tybir bod hynny'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod addysg y plentyn yn parhau i ddatblygu. Rhaid gwneud hyn dri mis cyn i'r gorchymyn goruchwylio addysg ddod i ben. Mae'n bosibl na fydd llysoedd yn creu gorchymyn goruchwylio addysg os yw'r plentyn eisoes yng ngofal yr awdurdod lleol.

**Y broses**

5.25 Mae ‘gorchymyn goruchwylio addysg’ yn fater ‘achos teulu’ fel y'i diffinnir yn Neddf Plant 1989, sy'n ystyried mai lles y plentyn yw'r pryder pennaf.

5.26 Wrth wneud cais am orchymyn goruchwylio addysg, dylai awdurdodau lleol ddarparu adroddiad ar y plentyn i'r llys, a ddylai gynnwys y wybodaeth ganlynol:

- manylion perthnasol am amgylchiadau'r plentyn, gan gynnwys: oedran, rhywedd, cefndir ac unrhyw anghenion corfforol, emosiynol neu addysgol penodol (gan gynnwys AAA fel y'u diffinnir gan adran 312 o Ddeddf Addysg 199646) a allai fod gan y plentyn
- asesiad o'r rhesymau dros bresenoldeb gwael y plentyn
- asesiad meddygol, os yw'n berthnasol
- awgrym o agweddau'r plentyn, y rhiant, yr ysgol ac asiantaethau eraill tuag at y presenoldeb gwael
- disgrifiad byr o effaith y gwaith a wnaed eisoes
- rhesymau dros wneud cais am orchymyn goruchwylio addysg ac asesiad o'r ffordd y gallai'r plentyn fod dan anfantais os na chrëir gorchymyn goruchwylio addysg

[43] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/7
[44] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/444
[45] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/444ZA
[46] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/312

- amlinelliad o'r ymyrraeth arfaethedig, gan gynnwys targedau ar gyfer amseru a monitro
- rhaglen o'r gwaith y bwriedir ei wneud, gan awgrymu rôl y plentyn, y rhieni a'r ysgol, a chydag awgrym o sut y mae'r awdurdod lleol o'r farn y bydd yn helpu i ddatrys y broblem a sicrhau bod y plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd.

5.27 Rhaid i'r llys hefyd ystyried anghenion lles y plentyn (rhoddir rhestr o'r rhain yn adran 1(3) o Ddeddf Plant 1989[47]), a bydd angen ceisio dymuniadau a theimladau'r plentyn a'u hystyried.

5.28 Dylai gorchymyn goruchwylio addysg gael ei adolygu'n rheolaidd, drwy drafodaeth rhwng y swyddogion goruchwylio a'u rheolwyr.

[47] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1989/41/section/1

## Cymorth i blant a addysgir yn y cartref

6.1 Disgwylir i awdurdodau lleol helpu rhieni sy'n addysgu yn y cartref, gan gydnabod y gall rhieni sy'n addysgu yn y cartref fabwysiadu ystod eang ac amrywiol o ddulliau o addysgu yn y cartref, a defnyddio amrywiaeth o athroniaethau a dulliau. Dylai awdurdodau lleol, lle y bo'n bosibl, hyrwyddo mynediad at gyfleoedd dysgu sydd ar gael i bob plentyn yn eu hardaloedd.

### Gwybodaeth glir

6.2 Dylai awdurdodau lleol ddarparu gwybodaeth glir a chywir am eu polisïau addysg yn y cartref ar eu gwefannau, a hynny ar dudalen benodol ar gyfer addysg yn y cartref, gan gynnwys manylion cyswllt sefydliadau cymorth addysg yn y cartref lle y byddant ar gael.

6.3 Dylai awdurdodau lleol rhoi enw swyddog cyswllt yn yr awdurdod i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, sy'n ystyried gwneud hynny, a dylai'r swyddog hwnnw fod yn gyfarwydd â pholisi ac ymarfer addysg yn y cartref a deall yr amrywiaeth o athroniaethau addysgol. Dylid hefyd darparu dolen at y Llawlyfr i Addysgwyr yn y Cartref.

6.4 Dylai awdurdodau lleol, cyn belled ag y bo'n ymarferol, sicrhau bod staff a allai fod yn bwynt cyswllt cyntaf ar gyfer rhiant sy'n ystyried addysg yn y cartref, e.e. ateb ymholiadau ffôn, yn deall hawl rhiant i ddewis addysg yn y cartref.

### Cymorth ymarferol ac adnoddau

6.5 Ymhlith rhai o'r ffyrdd y gallai awdurdodau lleol ddewis cefnogi teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref, mae'r canlynol:

- Datblygu tudalen ar wefan yr awdurdod lleol sydd wedi'i hanelu'n benodol at addysg yn y cartref
- Darparu cyngor cyffredinol
- Rhoi mynediad i adnoddau canolfannau dysgu
- Rhoi mynediad i adnoddau ysgolion lle y bo hynny'n ymarferol
- Rhoi mynediad i ganolfannau arholi lle y bo hynny'n ymarferol
- Hwyluso mynediad i unrhyw gyfraddau gostyngol am ddeunyddiau addysgol
- Rhoi mynediad i gyfleusterau cymunedol a chwaraeon y mae'r awdurdod lleol yn berchen arnynt yn yr un modd ag i blant ysgol
- Rhoi gwybod i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref am unrhyw brosiectau y gallai plant a addysgir yn y cartref gael mynediad atynt yn rhesymol.

### Gwasanaethau ieuenctid

6.6 Dylai plant a addysgir yn y cartref gael mynediad i'r amrywiaeth eang o wasanaethau cymorth sydd ar gael, fel cyngor gyrfaoedd a gwasanaethau cymorth ieuenctid. Mewn llawer o achosion, mae darpariaeth o'r fath ar gael yn rhad ac am ddim ac yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu anffurfiol ac achrededig yn aml i blant, yn ogystal â mynediad i gymorth a all gyfoethogi eu dysgu a'u llesiant.

6.7 Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cymorth ieuenctid sy'n cynnig cyfleoedd dysgu i blant a phobl ifanc 11 i 25 oed. Mae hyn o

ganlyniad i'r cyfarwyddyd a roddwyd gan Weinidogion Cymru i awdurdodau lleol i ddarparu a sicrhau darpariaeth gwasanaethau cymorth ieuenctid, neu gyfranogi ynddi drwy adran 123(1) o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000[48]. Diffinnir gwasanaethau cymorth ieuenctid fel gwasanaethau a fydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn annog, galluogi neu gynorthwyo pobl ifanc (yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) i wneud y canlynol:

- cymryd rhan yn effeithiol mewn addysg a hyfforddiant
- manteisio ar gyfleoedd cyflogaeth
- cymryd rhan mewn ffordd effeithiol a chyfrifol ym mywydau eu cymunedau.

6.8 Mae rhai awdurdodau lleol yn darparu cysylltiadau i wasanaethau cymorth ieuenctid, drwy becynnau gwybodaeth i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref. Mae eraill yn hyrwyddo mynediad at wasanaethau cymorth addysg arbenigol fel seicolegwyr addysg a'r gwasanaeth nyrsio i blant oedran ysgol (y mae hawl gan bob plentyn o oedran ysgol iddo). Argymhellir bod gan staff yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ymgysylltu â theuluoedd sy'n addysgu yn y cartref wybodaeth gyfredol am yr holl wasanaethau o'r fath yn eu hardal. Bydd hyn yn eu galluogi i gynghori teuluoedd ar ddarpariaeth a allai gyfoethogi profiad addysgol plant a addysgir yn y cartref. Dylai'r rhain gynnwys rhwydweithiau lleol, e.e. fforymau ieuenctid a ffynonellau eraill o gyngor a chymorth sydd ar gael i blant a phobl ifanc.

6.9 Ochr yn ochr â'r gwasanaethau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid grant i awdurdodau lleol i gefnogi'r gwaith ieuenctid y maent yn ei gynnig i bobl ifanc. Nod gwaith ieuenctid yw galluogi pobl ifanc i ddatblygu mewn ffordd gyfannol, gan hwyluso eu datblygiad personol, cymdeithasol ac addysgol. Drwy hyn, mae'n ceisio eu helpu i ddatblygu eu llais, eu dylanwad a'u lle mewn cymdeithas ac i gyflawni eu potensial llawn.

6.10 Darperir cyllid hefyd i gefnogi'r gwaith o gyflenwi'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid[49]. Mae'r Fframwaith yn chwarae rôl bwysig wrth weithredu dulliau gweithredu effeithiol o gefnogi pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) neu sy'n wynebu'r risg o ddod yn NEET. Mae'n cynnig dull systematig o adnabod y rheini sydd angen cymorth, pennu pa gymorth sydd ar gael ac olrhain cynnydd pobl ifanc wrth iddynt drosglwyddo o addysg i addysg bellach neu gyflogaeth. Mae'n gofyn am ddull amlasiantaeth o weithio er mwyn osgoi dyblygu a'r perygl y caiff pobl ifanc eu pasio o un sefydliad i'r llall yn ddiangen. Awdurdodau lleol sy'n gyfrifol am roi'r Fframwaith ar waith.

6.11 Mae gan bob awdurdod lleol fforwm ieuenctid. Dylai awdurdodau lleol sicrhau bod gwybodaeth am eu fforymau ar gael i addysgwyr yn y cartref. Mae'r fforymau'n rhoi cyfle i bobl ifanc gymryd rhan yn eu cymuned leol, ac i fynd i'r afael â materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc lle maent yn byw. Mae pob fforwm yng Nghymru yn gweithio mewn ffordd wahanol, ond y bobl ifanc sydd bob amser yn adnabod y materion, ac yna'n ymgyrchu dros newid. Mae gan rai ardaloedd fforymau plant hefyd.

---

[48] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/2000/21/section/123
[49] www.llyw.cymru/gwaith-ieuenctid-ac-ymgysylltu

**Astudiaeth Achos 1: Sir Ddinbych**

Mae awdurdod lleol Sir Ddinbych yn cynnal dwy sesiwn alw heibio bob blwyddyn sy'n llwyfan anffurfiol i deuluoedd dysgwyr a Addysgir yn y Cartref i gyfarfod â swyddogion yr awdurdod lleol ac asiantaethau eraill i drafod gwasanaethau newydd a gynigir a rhai sydd yn yr arfaeth, a allai fod o fudd iddynt. Mae'r awdurdod lleol yn darparu cymorth a chyngor i deuluoedd sy'n addysgu yn y cartref ar gael mynediad at Wasanaethau Llyfrgelloedd, Gwasanaethau Chwaraeon Sirol, Gwasanaethau Chwaraeon Anabledd a'r Gwasanaeth Ieuenctid, a fydd yn eu cefnogi i gyfoethogi'r addysg a ddarperir ganddynt. I bobl ifanc sy'n agosáu at ddiwedd oedran addysg orfodol, bydd y tîm 14–19 yn yr awdurdod lleol yn cynnig cymorth i ddod o hyd i hyfforddiant, cyflogaeth neu addysg.

**Astudiaeth Achos 2: Sir Benfro**

Cafodd Prosiect Allgymorth Addysg yn y Cartref Sir Benfro ei gyllido gan grant Chwaraeon Cymru, a chafodd ei lunio a'i greu gan Swyddog Pobl Ifanc Egnïol ar gyfer Chwaraeon Sir Benfro. Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar lythrennedd corfforol drwy gyfrwng sgiliau syrcas, gweithgareddau mentrus yn yr awyr agored a sesiynau yn canolbwyntio ar chwaraeon a sesiynau aml-sgiliau fel ei gilydd.

Roedd digwyddiadau lansio yn cynnig sesiynau addysg rhieni ar ymwybyddiaeth o lythrennedd corfforol a sesiynau ymarferol yn cynnig hyfforddiant i rieni ar ddarparu, a gweithgareddau blasu posibl i blant, mewn cysylltiad â chlybiau chwaraeon lleol. Roedd y prosiect yn cynnwys gwaith partneriaeth, gydag asiantaethau eraill yn darparu sesiynau ymarferol er mwyn ymgysylltu â phlant a rhieni. Roedd y cwrs yn dilyn rhaglen o sesiynau rheolaidd mewn lleoliad canolog y cytunwyd arno, yn cynnig syniadau ymarferol a gweithgareddau i blant a rhieni. Roedd adnoddau a chyfarpar ar gael i deuluoedd i fynd â nhw adref gyda nhw, er mwyn parhau â'r gweithgareddau yn y cartref. Roedd y sesiynau'n hyrwyddo'r defnydd o fagiau ymgysylltu rhieni a chynigiwyd rhagor o fentora a chymorth i gefnogi hyn. Dewiswyd y lleoliad a'r gweithgareddau ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i ddewis teuluoedd, rhaglenni canolfannau hamdden ac ymgynghori â'r garfan benodol hon.
Mae'r sesiynau bob pythefnos bellach wedi'u rhannu'n awr o chwaraeon a gweithgarwch corfforol ac awr o hyfforddiant cerddorol.

**Mae adborth gan y defnyddwyr yn cynnwys y canlynol:**
*‘Mae'r sesiynau hyn yn gyfle gwerthfawr i gymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol strwythuredig… mae diffyg gweithgarwch o'r fath i blant a addysgir yn y cartref.’*
*‘Mae'r cyfle i gael profiad o ddynamig cymdeithasol cymhleth grŵp mawr yn fuddiol iawn.’*
*‘Mae wedi bod yn wych i'n plant weld faint o deuluoedd eraill sy'n addysgu yn y cartref, i wneud ffrindiau newydd, hwb mawr i'w hyder!’*

**Astudiaeth Achos 3: Blaenau Gwent**

Ym Mlaenau Gwent, mae'r Gwasanaeth Cynhwysiant yn gweithio'n agos gyda'r Gwasanaeth Ieuenctid i gynnig cymorth i bobl ifanc a addysgir yn y cartref, yn enwedig yn rheini o oed Blwyddyn 11. Gall pobl ifanc a addysgir yn y cartref yn y grŵp oedran Blwyddyn 7–10 gael gafael ar gymorth gwaith ieuenctid mwy cyffredinol a chwnsela, sy'n cynnwys mynediad at weithgareddau grwpiau cymdeithasol a chyfleoedd dysgu. I ddysgwyr o oedran Blwyddyn 11, mae'r gweithwyr ieuenctid yn cynnig cymorth ychwanegol ar gyfer trosglwyddo. Mae'r gweithwyr hyn yn gallu cefnogi pobl ifanc gyda chyfleoedd profiad gwaith, ymweliadau â cholegau, darparwyr hyfforddiant a Gyrfa Cymru. Maent hefyd yn gweithio gyda phobl ifanc i ddatblygu eu hyder, eu hunan-barch a'u sgiliau cymdeithasol,

drwy waith grŵp a chymorth unigol, ynghyd â gweithgareddau ymarferol fel gwneud yn siŵr bod ganddynt gyfrif banc.

**Astudiaeth Achos 4: Bro Morgannwg**

Nod Fforwm Ieuenctid y Fro yw gwneud gwahaniaeth drwy alluogi pobl ifanc i leisio'u barn ar faterion lleol a dylanwadu ar benderfyniadau polisi.

Mae aelodau'r Fforwm rhwng 11–25 oed ac yn byw, yn mynd i'r ysgol neu'n gweithio ym Mro Morgannwg. Maent yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod materion, gwrando ar westeion gwadd a chymryd rhan mewn gweithdai, gweithgareddau a hyfforddiant hwyliog. Maent hefyd yn cael cyfarfod â'u Cynghorwyr etholedig a'u Haelodau Cynulliad.

## Cymorth arholiadau

6.12 Rhaid i rieni sy'n dewis addysgu eu plentyn yn y cartref fod yn barod i ysgwyddo'r cyfrifoldeb llawn am addysg eu plentyn a gall hyn gael goblygiadau ariannol, er enghraifft costau unrhyw arholiadau. Rhaid i arholiadau gael eu sefyll mewn canolfan arholiadau gymeradwy, a chyfrifoldeb yr addysgwr yn y cartref fydd nodi canolfan a chysylltu â'r darparwr yn uniongyrchol er mwyn cael gwybod am y ffordd benodol iawn y byddant yn ymdrin ag ymgeiswyr preifat.

6.13 Rydym yn croesawu'r ffaith bod 16 o'r 19 o unedau cyfeirio disgyblion mewn awdurdodau lleol yng Nghymru, wedi'u cofrestru fel canolfannau arholiadau[50]. Dylai colegau addysg bellach hefyd gael eu hannog i agor eu cyfleusterau i blant a addysgir yn y cartref ar gyfer arholiadau.

6.14 Mae Llywodraeth Cymru yn annog awdurdodau lleol yn gryf i gofrestru eu hunedau cyfeirio disgyblion fel canolfannau arholiadau a sicrhau eu bod ar gael i blant a addysgir yn y cartref, os nad ydynt eisoes wedi gwneud hyn. Dylai awdurdodau lleol, lle y bo'n bosibl, gyfeirio teuluoedd sy'n addysgu yn y cartref at ysgolion a chanolfannau sy'n caniatáu i fyfyrwyr allanol sefyll arholiadau. Anogir swyddogion addysg yn y cartref i weithio gyda'r darparwyr addysg heblaw yn yr ysgol yn eu hawdurdod lleol i ddarparu ar gyfer plant a addysgir yn y cartref lle y bo'n bosibl.

**Astudiaeth Achos 5: Rhondda Cynon Taf**

Mae gwasanaeth addysg yn y cartref Rhondda Cynon Taf wedi gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth addysg heblaw yn yr ysgol i ddatblygu prosiect peilot i sicrhau bod cymwysterau ar gael yn haws i'r gymuned addysg yn y cartref, gan ddefnyddio canolfan arholiadau'r tîm addysg heblaw yn yr ysgol i hwyluso proses gofrestru breifat i ymgeiswyr.

Ymgynghorwyd â rhieni sy'n addysgu yn y cartref â phlant 14–16 oed ar yr ystod o gymwysterau yr oedd ganddynt ddiddordeb ynddynt a beth a allai fod yn ymarferol o safbwynt gweinyddol y gwasanaeth addysg heblaw yn yr ysgol.

Yna, ysgrifennodd y gwasanaeth addysg yn y cartref at rieni yn amlinellu'r costau cysylltiedig y byddent yn mynd iddynt ar gyfer pob cymhwyster a'r dyddiadau terfyn ar gyfer

[50] O fis Ionawr 2019.

gwneud penderfyniadau am gofrestru. Rhoddwyd hyfforddiant i rieni ar fanylebau'r pynciau, diogelwch arholiadau a gofynion asesu diarholiad.

Talodd y rhieni holl gostau'r arholiadau. Cafodd y costau staffio eu hymgorffori i'r trefniadau asesu presennol ar gyfer darpariaeth hyfforddiant addysg heblaw yn yr ysgol ac nid oedd unrhyw gostau staff ychwanegol ar gyfer goruchwylio.

Drwy gydol y flwyddyn academaidd, cynhaliwyd boreau coffi ar y cyd rhwng addysgwyr yn y cartref a rhieni plant addysg heblaw yn yr ysgol. Daeth gweithwyr proffesiynol o amrywiaeth o asiantaethau, gan gynnwys seicoleg addysg, cwnsela, Gyrfa Cymru, colegau a hyfforddiant Porth i'r boreau coffi hefyd er mwyn rhoi cyngor.

O hyn ymlaen, mae'r gwasanaeth addysg yn y cartref yn bwriadu ehangu'r ystod o gymwysterau sydd ar gael i'r gymuned addysg yn y cartref.

**Astudiaeth Achos 6: Powys**

Mae gan Gyngor Sir Powys dair uned cyfeirio disgyblion ac mae pob uned wedi'i chofrestru â CBAC fel canolfan arholiadau. Bydd yr unedau cyfeirio disgyblion hefyd yn cymedroli a, lle y bo'n briodol, yn anfon papurau prawf i gael eu marcio.

Mae Powys yn cynnig y cyfle i fyfyrwyr addysg yn y cartref sefyll eu harholiadau a'u hasesiadau yn yr unedau cyfeirio disgyblion fel 'disgyblion gwadd'. Mae Cyngor Sir Powys yn gobeithio y bydd yr arlwy hwn yn fuddiol i blant a addysgir yn y cartref.

**Astudiaeth Achos 7: Coleg AB Sir Benfro**

Mae Gweithdai Ardystio Ymarferol Coleg Sir Benfro yn rhoi'r cyfle i fyfyrwyr a addysgir yn y cartref ac ymgeiswyr preifat i gwblhau'r gweithdy Ardystio Ymarferol mewn labordai gwyddoniaeth o'r radd flaenaf newydd sbon.

Mae Coleg Sir Benfro yn ganolfan arholiadau ymarferol gymeradwy ar gyfer pob un o brif gyrff dyfarnu'r DU, gan gynnwys AQA, EDEXCEL, OCR a CBAC.

## Addysgu hyblyg

6.15 Dylai budd pennaf y plentyn fod wrth wraidd y penderfyniadau a wneir gan awdurdodau lleol ac ysgolion fel ei gilydd. Wrth ystyried y ffordd orau o gefnogi plentyn, mae'n bwysig cydnabod efallai nad yw ysgol yn addas i bob plentyn. Ymhlith yr achosion lle gallai addysgu hyblyg fod yn fuddiol i blentyn, mae'r canlynol (ond nid yw'r rhestr yn gynhwysfawr):

- lle mae'r plentyn yn trosglwyddo yn ôl i'r ysgol
- le mae plentyn yn trosglwyddo i'r ysgol am y tro cyntaf
- lle bo gan y plentyn gyflwr sbectrwm awtistiaeth ac mae ysgol yn heriol iddo
- lle bo'r plentyn yn dioddef o ffobia ysgol neu orbryder
- lle bo'r plentyn yn sâl.

6.16 Mae'n bwysig nodi bod addysgu hyblyg yn wahanol i addysg yn y cartref. Mae addysgu hyblyg yn drefniant rhwng rhieni plentyn a'r ysgol lle mae'r dysgwyr wedi'i gofrestru yn yr ysgol yn y ffordd arferol, ond ei fod ond yn mynychu'r ysgol yn rhan-amser. Caiff y dysgwyr ei addysg yn y cartref weddill yr amser. Addysg amser llawn

yw hyn a bydd y plentyn yn aros ar gofrestr yr ysgol.

6.17 Mae addysg yn y cartref yn ddewis dilys a gall fod yr opsiwn gorau ar gyfer y teulu a'r dysgwr. Fodd bynnag, nid yw hyn yn wir i bob teulu o reidrwydd. Mae addysgu hyblyg yn golygu bod plant a allai fod yn cael eu haddysgu yn y cartref yn dal i fod mewn ysgol brif ffrwd am gyfran o'r amser ac felly yn gallu elwa ar ei manteision.

6.18 Gall addysgu hyblyg fod yn ffordd ddilys o gynnig cymorth addysgol i ddysgwyr ac anogir awdurdodau lleol i ystyried y ffordd orau o hwyluso addysgu hyblyg lle bo hynny er budd pennaf y plentyn.

6.19 O dan y Fframwaith Mynychu Ysgol Cymru Gyfan presennol, cofnodir dysgwyr addysgu hyblyg o dan god presenoldeb 'C' sy'n cyfrif fel 'absenoldeb awdurdodedig' o'r ysgol. Er y bydd hyn yn effeithio ar ffigurau presenoldeb yr ysgol, mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull mwy cyfannol o wella ysgolion drwy gael gwared ar y drefn o gyfrifo data perfformiad ysgolion (gan gynnwys y data presenoldeb) a oedd yn rhan o Gam 1 o'r System Categoreiddio Ysgolion Genedlaethol. Golyga hyn y bydd cyd-destun ysgol (gan gynnwys trefniadau addysgu hyblyg) yn fwy amlwg wrth ddod i benderfyniad ar hunanwerthusiad ysgol a'i gallu i wella.

## Diogelu ac addysg yn y cartref

7.1 P'un a ydynt mewn ysgol neu'n cael eu haddysgu yn y cartref, dylai diogelwch a llesiant pob plentyn a pherson ifanc fod o'r pwys mwyaf i bawb sy'n ymwneud â nhw.

7.2 Gellir ond cyflawni a chynnal deilliannau gwell i blant a phobl ifanc pan fydd unigolion a chyrff allweddol yn cydweithio i ddylunio a chyflenwi gwasanaethau mwy integredig i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc.

7.3 Dylai trefniadau diogelu effeithiol ym mhob awdurdod lleol gael eu hategu gan ddwy egwyddor allweddol:

- Mae diogelu yn gyfrifoldeb i bawb: er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol, rhaid i bob ymarferwr a sefydliad chwarae ei ran lawn, a hynny'n unigol ac mewn cydweithrediad â'i gilydd
- dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y plentyn: er mwyn i wasanaethau fod yn effeithiol, dylent gael eu seilio ar ddealltwriaeth glir o'r deilliannau personol i'r plentyn a'r hyn sy'n bwysig iddo. Dylai hawliau'r plentyn fod yn ganolog i'r dull o weithredu a'i fudd gorau fydd y peth pwysicaf.

### Diogelu plant sy'n wynebu risg

7.4 Mae Rhan 7 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014) yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ac y dylid ei wneud er mwyn diogelu plant ac oedolion. **Mae hyn yn gymwys i bob plentyn ni waeth ymhle neu ym mha ffordd y bydd yn derbyn ei addysg.**

7.5 Mae gan bob partner perthnasol[51] sy'n ymwneud â'r plentyn ddyletswydd i hysbysu am blant sy'n wynebu risg (adran 130) o dan Ran 7 o Ddeddf 2014.

7.6 Mae adran 130(4) yn diffinio 'plentyn sy'n wynebu risg' fel plentyn:

- sy’n cael, neu sy’n wynebu risg o gael, ei gam-drin neu ei esgeuluso neu ddioddef mathau eraill o niwed
- y mae arno anghenion am ofal a chymorth (p’un a yw’r awdurdod yn diwallu unrhyw un neu rai o’r anghenion hynny ai peidio).

7.7 Pan fydd yr awdurdod lleol wedi cael gwybod am blentyn yn unol ag adran 130, rhaid i'r awdurdod lleol ystyried a oes rheswm dros wneud ymholiadau yn unol ag adran 47 o Ddeddf Plant 1989.

7.8 Mae Rhan 9 o Ddeddf 2014 yn gofyn am gydweithredu a phartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a'i bartneriaid perthnasol. Lle y bydd awdurdodau lleol yn gofyn iddynt wneud hynny, bydd dyletswydd ar ymarferwyr yn yr asiantaethau partner perthnasol hynny i gydweithredu a darparu gwybodaeth o dan adran 164 o Ddeddf 2014. Rhaid i'r person y gofynnir iddo, gydymffurfio â'r cais a wneir gan yr awdurdod lleol oni bai bod y person yn ystyried y byddai gwneud hynny yn anghyson â dyletswyddau'r person ei hun, neu fel arall yn cael effaith andwyol ar y broses o arfer ei swyddogaethau (adran 164(2)).

---

[51] ‘Caiff partneriaid perthnasol' eu diffinio gan adran 162(4) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

7.9 Dylai personau y mae'n ofynnol iddynt rannu gwybodaeth (fel y diffinnir gan adran 164(4) ac adran 162(4) o Ddeddf 2014 ddeall eu dyletswydd statudol i hysbysu awdurdod lleol os bydd plentyn yn wynebu risg. Rhaid i berson sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o'r fath ysgrifennu at yr awdurdod lleol a wnaeth y cais gan nodi rhesymau dros ei benderfyniad.

7.10 Mae adran 28(2) o Ddeddf Plant 2004 yn rhoi dyletswydd ar bersonau[52] a chyrff penodol i wneud trefniadau i sicrhau bod eu swyddogaethau yn cael eu cyflawni, gan roi sylw dyledus i'r angen i ddiogelu a hybu lles plant. Caiff y personau a'r cyrff y mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol iddynt eu rhestru yn adran 28(1).

7.11 O dan adran 137 o Ddeddf 2014, amcanion y Bwrdd Diogelu Plant yw amddiffyn plant yn ei ardal a'u hatal rhag profi camdriniaeth, esgeulustod neu fathau eraill o niwed. Yn dilyn hynny, mae'n rhoi'r pŵer i'r Bwrdd Diogelu wneud cais am wybodaeth benodol gan berson neu gorff cymwys, ar yr amod mai diben y cais yw galluogi neu gynorthwyo'r Bwrdd i gyflawni ei swyddogaethau a bodloni ei amcanion.

7.12 Ni all unrhyw ymarferydd unigol gael darlun llawn o blentyn na'i deulu, felly dylid cyflwyno cymorth i deuluoedd drwy ddull weithredu amlasiantaeth cydgysylltiedig. Mae'r gallu i weithio ar draws asiantaethau ac i asiantaethau gydweithio yn hanfodol er mwyn meithrin dealltwriaeth well o amgylchiadau'r teulu cyfan a'u hanghenion o ran gofal a chymorth. Gall cydberthnasau gwaith cryf a dull amlasiantaethol atal anghenion rhag dwysáu a nodi pryd y bydd plentyn neu aelod o'r teulu'n wynebu risg.

7.13 Mae gan bawb sy'n gweithio mewn gwasanaethau addysg a ddaw i gysylltiad â phlant a'u teuluoedd rôl i'w chwarae o ran diogelu plant, p'un a ydynt wedi'u cyflogi gan yr awdurdod lleol neu beidio.

## Addysg yn y cartref

7.14 Nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod plant a addysgir yn y cartref yn wynebu mwy o risg o gael eu hesgeuluso neu eu cam-drin na phlant a addysgir yn yr ysgol. Mae addysg yn y cartref yn brofiad cadarnhaol i lawer o blant. Fodd bynnag, mae ysgolion a lleoliadau addysg yn chwarae rôl bwysig wrth ddiogelu plant. Maent yn lleoedd lle gall plant gael eu gweld a'u clywed yn rheolaidd. Mae'n bwysig, felly, bod pob plentyn yn cael yr hawl i fod yn ddiogel, ni waeth ble a sut y mae'n derbyn ei addysg.

7.15 Nid yw penderfyniad rhiant i addysgu yn y cartref ynddo'i hun yn destun pryder am ddiogelwch a llesiant plentyn. Fodd bynnag, fel yn achos pob plentyn ni waeth ymhle y caiff ei addysgu, gall fod amgylchiadau sydd, ar eu pen eu hunain neu o'u cyfuno, yn rhoi achos i ymarferwyr geisio mwy o wybodaeth am blentyn.

7.16 Dylai awdurdodau lleol ymdrin â phob achos lle ceir amheuaeth am addasrwydd addysg yn y cartref gan ddefnyddio'u pwerau o dan Ddeddf Addysg 1996 (cyfeiriwch at adran 5), ond dylent hefyd fod yn barod, os yr ymddengys y bydd diffyg addysg addas yn debygol o effeithio ar ddatblygiad plentyn, i arfer eu pwerau a'u dyletswyddau diogelu yn llawn er mwyn diogelu llesiant plentyn, sy'n cynnwys addysg addas.

---

[52] Caiff y term personau penodol ei ddiffinio yn adran 28(1) o Ddeddf Plant 2004.

7.17 Wrth arfer pwerau diogelu, byddai awdurdod lleol fel arfer yn cychwyn ymchwiliad o dan adran 47 o Ddeddf Plant 1989, ar y sail bod diffyg gwybodaeth am ddarpariaeth addysgol plentyn yn gallu bodloni'r prawf bod 'achos rhesymol dros gredu' bod risg o niwed sylweddol o dan y ddarpariaeth honno. Gall achos rhesymol gynnwys diffyg gwybodaeth gadarn am addysg plentyn, felly os bodlonir y prawf 'os ymddengys fod' yn adran 437(1), yna bydd achos rhesymol yn nhermau a.47 fel arfer. Gall yr ymholiadau hyn gynnwys cymryd camau i sicrhau cyswllt â'r plentyn. Felly, bydd canlyniad ymholiadau yn dilyn ymchwiliad adran 47 yn galluogi awdurdod lleol i benderfynu a ddylid cymryd camau i ddiogelu lles plentyn.

7.18 Yn dilyn ymchwiliad adran 47, os bydd awdurdod lleol yn dod i'r casgliad bod y trothwy niwed sylweddol wedi'i fodloni, ond nad yw'r rhieni yn unioni'r pryderon a nodwyd, mae'n bosibl y bydd angen gwneud cais am orchymyn gofal. Mae methu â darparu addysg yn gallu bodloni meini prawf y trothwy 'niwed sylweddol' o dan adran 31 o Ddeddf Plant 1989.

7.19 Gall 'niwed' gynnwys llesteirio iechyd neu ddatblygiad, sy'n golygu datblygiad corfforol, deallusol, emosiynol, cymdeithasol neu ymddygiadol, felly mae'n amlwg y gall darparu addysg anaddas fod gyfystyr â hyn. Nid oes rhaid i'r broses o achosi niwed sylweddol fod yn fwriadol neu'n bwrpasol, ond mae cyfraith achosion[53] yn nodi bod yn rhaid iddi fod yn 'sylweddol, yn nodedig neu'n bwysig'. Mae hwn yn bwynt allweddol i awdurdodau lleol wrth iddynt ystyried a yw'r defnydd o bwerau diogelu yn briodol mewn achos yn ymwneud â phlentyn nad yw'n derbyn addysg addas. Fodd bynnag, dylai awdurdodau lleol fod yn glir ynghylch y ffaith os oes cyfiawnhad dros ddefnyddio pwerau diogelu, yna dylid eu defnyddio.

7.20 Mae diogelu yn gyfrifoldeb ar bawb a dylai asiantaethau sicrhau bod ymarferwyr sy'n dod i gysylltiad â phlant yn ymwybodol o'r trefniadau a nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru ac yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl Cyfrol 5 - Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Plant sy'n Wynebu Risg[54] a gyhoeddwyd o dan Ddeddf 2014.

7.21 Bydd Gweithdrefnau Diogelu Cymru Gyfan, y disgwylir iddynt gael eu cyhoeddi yn ystod hydref 2019, yn cael eu cefnogi drwy nifer o Ganllawiau Ymarfer Cymru Gyfan ar ddiogelu plant o dan amgylchiadau penodol. Bydd y Canllawiau Ymarfer amlasiantaethol hyn yn darparu gwybodaeth am ymateb i faterion yn ymwneud â diogelu. Bydd hyn yn cynnwys Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan: Diogelu plant sy'n derbyn eu haddysg yn y cartref.

## Rhannu gwybodaeth

7.22 Mae rhannu gwybodaeth yn rhan allweddol o arfer da ym maes diogelu. Rhaid i ymarferwyr rannu gwybodaeth yn unol â deddfwriaeth diogelu data. Mae deddfwriaeth diogelu data yn darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth ac ni ddylid ei defnyddio'n awtomatig fel rheswm dros beidio â gwneud hynny. Un o'r amgylchiadau penodol sy'n darparu ar gyfer rhannu gwybodaeth yw er mwyn atal camdriniaeth neu niwed difrifol i eraill**.** Pan na chaiff gwybodaeth ei rhannu mewn ffordd amserol ac effeithiol, mae'n bosibl y gwneir penderfyniadau ar sail gwybodaeth ddiffygiol gan arwain at ymarfer diogelu gwael a gadael plant mewn perygl o wynebu niwed. Mae


[53] Yn parth B (Plentyn) (Trafodion gofal: Meini Prawf Trothwy) [2013] 1 WLR 1911
[54] www.gweddill.gov.wales/docs/dhss/publications/180511childrenatriskcy.pdf

Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Rhannu Gwybodaeth er mwyn diogelu plant' a fydd yn rhoi cyngor pellach.

## Plentyn neu berson ifanc nad yw mewn cysylltiad â gwasanaethau cyffredinol

7.23 Gall fod amgylchiadau pan na fydd plentyn wedi cael cyswllt uniongyrchol â gwasanaethau cyhoeddus am gyfnod sylweddol o amser. Nid yw hyn ynddo'i hun yn dystiolaeth bod plentyn yn wynebu risg o niwed, ond dylai beri i ymarferwyr ystyried pa gamau pellach y gall fod angen iddynt eu cymryd, drwy drafodaeth â'r uwch swyddog sy'n gyfrifol am addysg yn y cartref. Fodd bynnag, bu nifer o achosion lle mae plant nad ydynt wedi bod mewn cysylltiad â gwasanaethau cyhoeddus wedi cael niwed sylweddol. Mewn rhai achosion, gall fod sail i roi gwybod i'r Gwasanaethau Cymdeithasol am bryder diogelu os oes tystiolaeth i awgrymu na fu unrhyw gyswllt rhwng plentyn a gwasanaethau cyhoeddus am gyfnod estynedig. Bydd Canllaw Ymarfer Cymru Gyfan ar gael i ddarparu cyngor pellach a'i ddefnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, sydd ar fin cael eu cyhoeddi.

# Atodiad 1: Siart lif gorchmynion mynychu'r ysgol a gorchmynion goruchwylio addysg




*Heb weld y plentyn, bydd yn anodd i'r awdurdod lleol asesu addasrwydd yr addysg yn rhesymol a chymhwyso unrhyw dystiolaeth a ddarperir i'r plentyn hwnnw.

Os ydych yn penderfynu peidio â gwneud cais am orchymyn goruchwylio addysg, dylech gofnodi'r rhesymau pam y teimlwyd nad oedd hynny'n briodol.

Gallwch:
- Ailddechrau proses a437 eto.
- Erlyn rhieni am fethu â chydymffurfio â gorchymyn mynychu'r ysgol a/neu;
- Wneud cais am Orchymyn Goruchwylio Addysg.

**Rhaid** i chi ystyried gwneud cais am orchymyn goruchwylio addysg o dan **a36(9) o Ddeddf Plant 1989** cyn gwneud penderfyniad i erlyn rhieni am fethu â chydymffurfio â gorchymyn mynychu'r ysgol.

**Mae'r ALl yn erlyn y rhieni**

**A/NEU**

**Mae'r ALl yn gwneud cais**

Mae'r llys yn penderfynu bod yr addysg yn addas ac felly nid yw'n dyfarnu'r rhieni'n euog.

Mae'r llys yn penderfynu nad yw'r addysg yn addas ac yn dyfarnu'r rhieni'n euog.

**Nid yw'r rhieni'n anfon y plentyn i'r ysgol er gwaethaf euogfarn**

Gallwch wneud y canlynol:
- Ailddechrau proses a437 eto.
- Wneud cais am orchymyn goruchwylio addysg.

Mae'r Llys yn penderfynu bod yr addysg yn addas ac yn gwrthod creu gorchymyn goruchwylio addysg.

Mae'r Llys yn gwneud gorchymyn goruchwylio addysg ac rydych yn ei roi ar waith.

**Nid yw'r rhieni'n cydymffurfio â'r gorchymyn goruchwylio addysg**

Gallwch erlyn am fethu â chydymffurfio â gorchymyn goruchwylio addysg.

# Atodiad 2: Llythyr cyswllt cychwynnol

Enw
Cyfeiriad
Dyddiad

Annwyl riant neu warcheidwad*

**Addysg yn y cartref ar gyfer [enw/enwau'r plentyn/plant]**

Fy enw i yw **[nodi enw]** ac rwy'n ysgrifennu i gyflwyno fy hun fel y swyddog cyswllt ar gyfer addysg yn y cartref yn **[enw'r awdurdod lleol].**

Mae dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod plant yn eu hardal sydd o oedran addysg orfodol ac nad ydynt ar gofrestr ysgol yn derbyn addysg addas.

Hoffwn drefnu cyfarfod â chi a **[enw/enwau'r plentyn/plant]** ar **[dyddiad]** am **[amser].**

Diben yr ymweliad yw asesu a fydd yr addysg rydych yn ei darparu ar gyfer **[enw/enwau'r plentyn/plant]** yn peri iddo/iddi dderbyn addysg addas a thrafod unrhyw gymorth y credwch y byddai'n ddefnyddiol. Os nad yw'r dyddiad/amser yn gyfleus, cysylltwch â mi i drefnu amser/dyddiad/lleoliad a fydd yn gyfleus i ni gael cwrdd.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech chi a **[enw/enwau'r plentyn/plant]** lenwi'r ffurflen atodedig cyn ein cyfarfod gan y bydd hyn yn helpu i lywio'r drafodaeth.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn ein cyfarfod, cysylltwch â mi ar y rhif **[uchod/isod].**

Edrychaf ymlaen at gyfarfod â chi a **[enw/enwau'r plentyn/plant]**

Yn gywir,

Swyddog addysg yn y cartref

**Mae'r term 'rhiant' mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n un o rieni'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhieni drosto, neu'n gofalu am y plentyn.*

## Atodiad 3: Templed cyn ymweliad i rieni

| |
|---|
| **Cyn ymateb i'r meysydd yn y ffurflen hon, *[adran yn yr awdurdod lleol],* dylid cydnabod ei bod yn bosibl y bydd angen mwy o amser i gynllunio'ch dyheadau o ran addysg yn y cartref yn llawn, a'u rhoi ar waith,  felly mae croeso i chi ddarparu ymateb i'r meysydd hynny rydych yn teimlo'n hyderus yn ymateb iddynt.** |

| | |
|---|---|
| **Enw'r rhiant / gofalwr*** | |
| **Enw'r dysgwr** | |
| **Oedran y dysgwr** | |
| **Rhywedd y dysgwr** | |
| **A oes gan eich plentyn unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA)?** | |
| **Ysgolion blaenorol a fynychwyd (os o gwbl)** | |
| **Dyddiad y cychwynnodd yr addysg yn y cartref** | |
| **Rhesymau dros addysgu yn y cartref** | |
| **Athroniaeth addysgol neu ddull o weithredu** | |
| **Dyddiad** | |
| *Rhowch grynodeb o wybodaeth a sgiliau presennol y dysgwr, sut y maent wedi datblygu dros amser a'r hyn y mae'n anelu at ei ddysgu nesaf.* | |
| <u>Gwybodaeth a sgiliau presennol y dysgwr</u> | |

| |
|---|
| <u>Datblygiad a chynnydd y dysgwr</u> |
| <u>Nodau'r dysgwr a sut y cânt eu cyflawni</u> |
| **Yr Amgylchedd**<br>*Ble mae'r addysg y mae eich plentyn yn ei derbyn yn digwydd?*<br><br>Yn y cartref☐ Grwpiau addysg yn y cartref☐ Mewn llyfrgelloedd☐ Tripiau addysgol e.e. amgueddfeydd, cestyll ac ati ☐ Arall ☐ |
| **Profiadau**<br>*Amlinellwch y cyfleoedd i'ch plentyn ddysgu o brofiadau bywyd go iawn; y cyfleoedd i'ch plentyn drafod materion personol, cymdeithasol ac iechyd; a'r cyfleoedd i'ch plentyn gael profiad o amrywiaeth eang o weithgareddau fel cerddoriaeth a chelf.* |

**Cyfleoedd ar gyfer gweithgarwch corfforol a chwarae**

**Rhyngweithio**

*Amlinellwch y cyfleoedd i'ch plentyn gael profiadau cymdeithasol gyda phlant eraill a gwneud ffrindiau.*

**Adnoddau**

*Rhestrwch rai enghreifftiau o'r adnoddau rydych yn eu defnyddio i hwyluso dysgu eich plentyn e.e. adnoddau ar-lein, llawlyfrau addysgol, llyfrgelloedd neu gyfleusterau cymunedol.*

*A oes unrhyw adnoddau yr hoffech gael mynediad atynt?*

**Pwy sy'n darparu'r addysg/gwersi i'ch plentyn?**

Rhiant/Gofalwr ☐ Aelod/aelodau arall/ eraill o'r teulu ☐ Ffrindiau'r teulu☐

Grwpiau addysg yn y cartref ☐ Tiwtor preifat☐ Arall ☐

**Os caiff gwersi eu darparu gan unrhyw un heblaw chi'ch hun, a ydych yn**

| |
|---|
| **ymwybodol o wiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd y gallech ofyn amdanynt fel tystiolaeth gan diwtoriaid?** Ydw ☐ Nac ydw☐ |
| **Cysylltiadau â sefydliadau eraill** |
| **A ydych yn fodlon i ni gysylltu â chi eto, yn unol â dogfen bolisi'r awdurdod lleol?**<br><br>Ymweliad 8 wythnos cyntaf i weld sut rydych yn dechrau arni Ydw ☐ Nac ydw ☐Dd/G ☐<br><br>Ymweliad blynyddol i asesu addasrwydd yr addysg a ddarperir Ydw☐ Nac ydw☐ |

**Mae'r term 'rhiant' mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n un o rieni'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhieni drosto, neu'n gofalu am y plentyn.*

# Atodiad 4(a): Templed cyn ymweliad i blant (5–10 oed)

| Enw: |
| --- |
| **Beth wyt ti'n hoffi dysgu amdano fwyaf?** |
| |
| **A oes unrhyw beth yr hoffet ti ei ddangos i mi?** |
| |
| **Beth yw'r hoff beth rwyt ti wedi'i ddysgu'n ddiweddar?** |
| |
| **Beth wyt ti'n mynd i fod yn dysgu amdano nesaf?** |
| |

## Atodiad 4(b): Templed cyn ymweliad i blant (10–16 oed)

| |
|---|
| **Enw:** |
| **Beth yw dy hoff beth i ddysgu amdano?** |
| |
| **A oes unrhyw beth arall rwyt ti wedi'i ddysgu yn ddiweddar yr hoffet ti siarad amdano?** |
| |
| **A oes unrhyw beth arall yr hoffet ti ei rannu â fi am yr hyn rwyt ti'n ei ddysgu?** |
| |
| **A oes gen ti unrhyw gwestiynau i mi? A elli di feddwl am unrhyw beth y gallaf i ei wneud i dy helpu?** |
| |

# Atodiad 5: Adroddiad ar ymweliad yr awdurdod lleol

| | |
|---|---|
| **Enw'r rhiant / gofalwr** | |
| **Enw/enwau'r plentyn/plant** | |
| **Dyddiad geni'r dysgwr** | |
| **Rhywedd y plentyn/plant** | |
| **A welwyd y plentyn/plant?** | |
| **Unrhyw anghenion addysgol arbennig (AAA) wedi'u nodi?** | |
| **Ysgolion blaenorol a fynychwyd (os o gwbl)** | |
| **Dyddiad y cychwynnodd yr addysg yn y cartref** | |
| **Rhesymau dros addysgu yn y cartref** | |
| **Athroniaeth addysgol neu ddull o weithredu** | |
| *Rhowch grynodeb o wybodaeth a sgiliau presennol y dysgwr, sut maent wedi datblygu dros amser a'r hyn maent yn anelu at ei ddysgu nesaf.* | |
| Gwybodaeth a sgiliau presennol y dysgwr | |
| **Cynlluniau a thargedau ar gyfer datblygiad addysgol** | |

| |
|---|
| |
| **Cynlluniau ar gyfer gweithgarwch cymdeithasol a chorfforol** |
| **Pwy sy'n darparu'r addysg/gwersi i'r plentyn/plant?**<br><br>Rhiant/Gofalwr ☐ Aelod/aelodau arall/ eraill o'r teulu ☐ Ffrindiau'r teulu☐<br><br>Grwpiau addysg yn y cartref ☐ Tiwtor preifat☐ Arall ☐<br><br>**Os caiff gwersi eu darparu gan unrhyw un heblaw'r rhiant, a gynhaliwyd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y tiwtoriaid?**<br>Do ☐ Naddo☐ |
| **Llais y plentyn** |
| **Unrhyw gamau pellach?** |

| |
|---|
| |
| **Ymweliad nesaf?**<br><br>Cyfarfod dilynol 8 wythnos Bydd ☐ Na fydd☐ Dd/G ☐<br><br>Ymweliad blynyddol i asesu addasrwydd yr addysg a ddarperir Bydd ☐ Na fydd☐ |

Enw'r Swyddog addysg yn y cartref:

Llofnod:

Dyddiad:

Rhannwyd yr adroddiad â'r rhieni ar xx/xx/xx

**Mae'r term ‘rhiant’ mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n un o rieni'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhieni drosto, neu'n gofalu am y plentyn.*

# Atodiad 6: Llythyr cyswllt adolygiad blynyddol

Enw
Cyfeiriad
Dyddiad

Annwyl [enw'r rhiant/gwarcheidwad]

**Addysg yn y cartref ar gyfer [enw/enwau'r plentyn/plant]**

Yn ystod ein cyfarfod ar **[nodi'r dyddiad]** fe gofiwch i mi egluro bod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i sicrhau bod pob plentyn o oedran addysg orfodol yn derbyn addysg briodol ac addas.

Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn, hoffwn drefnu i ddod i gyfarfod â chi a **[enw/enwau'r plentyn/plant]** mewn man a fyddai'n cyfleus i ni i gyd ar **[dyddiad]** am **[amser]** i drafod yr addysg a ddarperir i **[enw/enwau'r plentyn/plant]** a'i gynnydd/eu cynnydd, cynlluniau ar gyfer y dyfodol ac unrhyw gymorth a allai fod ar gael i chi.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau cyn fy ymweliad, cysylltwch â mi ar y rhif **[uchod/isod].** Yn yr un modd, os nad yw'r dyddiad/amser yn gyfleus, cysylltwch â mi i drefnu amser/dyddiad/lleoliad a fydd yn gyfleus i ni gael cwrdd.

Edrychaf ymlaen at gyfarfod â chi a **[enw/enwau'r plentyn/plant]**

Yn gywir,

Swyddog addysg yn y cartref

**Mae'r term 'rhiant' mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n un o rieni'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhieni drosto, neu'n gofalu am y plentyn.*

# Atodiad 7: Templed ymweliad cartref blynyddol

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr ymweliad: | |
| Enw'r swyddog/swyddogion ymweld | |
| Lleoliad yr ymweliad | |
| Personau a oedd yn bresennol yn ystod yr ymweliad | |

| **Manylion y dysgwr** | | | |
|---|---|---|---|
| Enw: | | | |
| Dyddiad Geni | | Rhyw | |

| Enw'r rhiant / gwarcheidwad*: | | |
|---|---|---|
| Cyfeiriad | | |
| Rhif ffôn | | |
| E-bost | | |
| A oedd y dysgwr yn bresennol yn ystod yr ymweliad? | Oedd | Nac oedd |

| **Diweddariad ar y proffil AAA – os yw'n berthnasol** |
|---|
| |

| **Unrhyw newid mewn amgylchiadau** |
|---|
| |

| Darpariaeth bresennol a chynnydd, gan gynnwys gweithgareddau cymdeithasol a chorfforol |
| --- |
| |

| Tystiolaeth i gefnogi addysg addas |
| --- |
| |

| Cynlluniau ar gyfer datblygu |
| --- |
| |

| Llais y plentyn |
| --- |
| Pa fath o bethau wyt ti'n mwynhau eu dysgu?<br>Gobeithion a breuddwydion |

| Unrhyw gamau pellach |
| --- |
| |

| |
|---|
| |

| Llofnod y rhiant: | Dyddiad: |
|---|---|

| Llofnod y swyddog addysg yn y cartref: | Dyddiad: |
|---|---|

**Rhoddwyd yr adroddiad i'r rhiant / gwarcheidwad ar xx/xx/xx gan enw:**

**Llofnod:**

**Mae'r term 'rhiant' mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n un o rieni'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhieni drosto, neu'n gofalu am y plentyn.*

# Atodiad 8: Templed hysbysiad gorchymyn mynychu'r ysgol cychwynnol

Annwyl [**enwau'r rhieni**]

**Parth: addysg yn y cartref ar gyfer [enw'r plentyn]**

Ymddengys i **[enw'r awdurdod lleol]** mai chi yw rhiant* **[enw'r plentyn a'i ddyddiad geni]** (y plentyn) o oedran addysg orfodol sy'n byw yn **[cyfeiriad y plentyn]** yn ardal yr awdurdod lleol.

Mae **[enw'r awdurdod lleol]** yn cydnabod ac yn parchu hawliau rhieni i addysgu eu plant gartref ac yn ymrwymedig i weithio gyda'r rhieni hynny.

Mae adran 7 o ddeddf Addysg 1996[55] yn datgan
'The parent of every child of compulsory school age shall cause him to receive efficient full-time education suitable
a) to his age, ability and aptitude, and
b) to any special educational needs he may have
either by regular attendance at school or otherwise.'

Byddai addysg addas yn cynnwys darpariaeth mewn sgiliau rhifedd, llythrennedd ac iaith, sy'n briodol i oedran y plentyn, ei allu a'i ddoniau ac unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddo. Mae hyn yn hanfodol er mwyn paratoi'r plentyn i gyfranogi mewn cymdeithas a gweithredu ynddi.

Rwy'n cyfeirio at ....... o lythyrau a anfonwyd atoch yn ddiweddar yn cynnig ymweliad i roi cyngor a chymorth o ran yr addysg yn y cartref a ddarperir gennych ar gyfer eich mab/merch. Gan **[na wnaethoch ymateb /eich bod wedi gwrthod dod i gyfarfod]**, ni all yr awdurdod lleol fod yn fodlon bod eich plentyn/plant yn derbyn addysg effeithlon, amser llawn sy'n addas ar gyfer ei/eu h/oedran, gallu a'i/a'u d/doniau ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a all fod ganddo/ganddynt.

**NEU** (dileer fel y bo'n briodol)

Rwy'n cyfeirio at …. o lythyrau a anfonwyd atoch yn ddiweddar yn mynegi pryder am yr addysg yn y cartref a ddarperir i'ch mab/merch. Ni all yr awdurdod lleol fod yn fodlon bod eich plentyn/plant yn derbyn addysg effeithlon, amser llawn sy'n addas ar gyfer ei/eu h/oedran, gallu a'i/a'u d/doniau ac unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a all fod ganddo/ganddynt.

Yn unol ag adran 437(1) o Ddeddf Addysg 1996[56], mae'r awdurdod yn gofyn i chi fodloni **[enw'r awdurdod lleol]** fod y plentyn/plant yn derbyn addysg addas, a hynny o fewn 15 diwrnod i'r adeg y cyhoeddir yr hysbysiad hwn.
Edrychaf ymlaen at glywed gennych mewn cysylltiad â'm cais, o fewn yr amserlen a nodir uchod.

---

[55] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/7
[56] www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1996/56/section/437

Yn gywir,

Swyddog addysg yn y cartref

**Mae'r term 'rhiant' mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n un o rieni'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhieni drosto, neu'n gofalu am y plentyn.*

# Atodiad 9: Templed hysbysiad gorchymyn mynychu'r ysgol

Annwyl **[enw'r rhiant]**,

Ysgrifennais atoch ar **[dyddiad]** yn gofyn i chi fy modloni o fewn 15 diwrnod fod **[enw/enwau'r plentyn/plant]** yn derbyn addysg addas. Mae mwy na 15 diwrnod wedi mynd heibio bellach. Ar ran yr Awdurdod Lleol, rwy'n ystyried y dylai **[enw'r plentyn/plant]** fynychu ysgol ac rwy'n bwriadu cyflwyno gorchymyn mynychu'r ysgol i chi.

Yn y gorchymyn mynychu'r ysgol, mae'r awdurdod lleol yn bwriadu enwi **[enw'r ysgol]** yn y gorchymyn ac enwi'r ysgol/ion g/canlynol y maent o'r farn ei/eu bod yn ddewis/ddewisiadau amgen addas.

- 
- 
- 

Neu, fel rhiant, mae gennych yr hawl i enwebu ysgol i'w henwi ar y gorchymyn mynychu'r ysgol.

Os byddwch yn dewis un o'r ysgolion a enwir uchod o fewn 15 diwrnod o'r dyddiad y rhoddir yr hysbysiad hwn i chi, bydd yr awdurdod yn enwi'r ysgol honno yn y gorchymyn.

**NEU** (dileer fel y bo'n briodol)

Ar ôl ystyried anghenion **[enw'r plentyn]**, **nid wyf** yn ystyried bod unrhyw ysgolion amgen addas yn [enw'r awdurdod lleol]. Oni fyddwch yn cymryd y camau priodol, bydd yr awdurdod lleol yn cyhoeddi gorchymyn mynychu'r ysgol ar ôl 15 diwrnod pellach o ddyddiad y llythyr hwn.

Yn gywir,

Swyddog addysg yn y cartref

**Mae'r term 'rhiant' mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n un o rieni'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhieni drosto, neu'n gofalu am y plentyn.*

## Atodiad 10: Templed gorchymyn mynychu'r ysgol

Annwyl [**enwau'r rhieni**]

Oherwydd eich bod chi, **[enw'r rhiant],** o **[cyfeiriad y rhiant],** sef rhiant* plentyn o oedran addysg orfodol yn ardal yr awdurdod lleol, wedi methu â bodloni'r awdurdod lleol yn unol â gofynion yr hysbysiad a gyflwynwyd i chi o dan adran 437(1) o Ddeddf Addysg 1996 gan yr awdurdod lleol ar **[dyddiad yr hysbysiad]** fod [enw'r plentyn] yn derbyn addysg addas, naill ai drwy fynychu'r ysgol yn rheolaidd neu fel arall.

Ac oherwydd, ym marn yr awdurdod lleol, y dylai [**enw'r plentyn**] fynychu'r ysgol:

Mae'n ofynnol i chi sicrhau bod **[enw'r plentyn]** yn dod yn ddisgybl cofrestredig yn yr ysgol ganlynol:

**[Nodwch enw a chyfeiriad llawn yr ysgol a dilëwch yr adrannau perthnasol o'r testun canlynol, neu'r cyfan ohono, fel sy'n ofynnol yr ôl yr achos]**

sef yr ysgol [a bennwyd gan yr awdurdod lleol] [a ddewiswyd gennych chi] [a bennwyd gan gyfarwyddyd Gweinidogion Cymru] [fel yr ysgol a enwir yn y Gorchymyn hwn] [a bennwyd yn natganiad y plentyn o dan adran 324 o Ddeddf Addysg 1996].

Bydd methu â chydymffurfio â gofynion y gorchymyn hwn yn drosedd oni allwch brofi bod **[enw'r plentyn]** yn derbyn addysg addas heblaw yn yr ysgol.

Yn gywir,

Swyddog addysg yn y cartref

**Mae'r term 'rhiant' mewn perthynas â phlentyn neu berson ifanc, yn cynnwys unrhyw berson nad yw'n un o rieni'r plentyn ond sydd â chyfrifoldeb rhieni drosto, neu'n gofalu am y plentyn.*